ADDYSGU ATHRAWON YFORY

Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

Adroddiad i Huw Lewis, AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

JOHN FURLONG
Cynghorydd HCA Llywodraeth Cymru

Mawrth, 2015

UNIVERSITY OF OXFORD

PRIFYSGOL RHYDYCHEN
YR ADRAN ADDYSG
15 Norham Gardens, Rhydychen OX2 6PY

Oddi wrth: Yr Athro Emeritws John Furlong
Mawrth 2015

UNIVERSITY OF OXFORD

Annwyl Weinidog,

Yn ei adolygiad o Hyfforddiant Athrawon yng Nghymru yn 2013, awgrymodd yr Athro Ralph Tabberer y dylai Llywodraeth Cymru benodi cynghorydd HCA er mwyn helpu i godi safonau yn y sector. Ym mis Mawrth 2014 gofynasoch i mi ymgymryd â'r rôl am ddwy flynedd – sef gwahoddiad a dderbyniais yn eiddgar.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi ceisio adeiladu ar adroddiad yr Athro Tabberer drwy gasglu ystod o dystiolaeth am gryfderau a gwendidau cyfredol addysg a hyfforddiant athrawon yng Nghymru. Rwyf wedi siarad â chydweithwyr uwch ym mhob un o'r tair Canolfan HCA, â Chonsortia rhanbarthol, ag ysgolion ac â chynrychiolwyr yr holl gyrff cenedlaethol sydd â chyfran yn y ddarpariaeth gyfredol. Rwyf hefyd wedi pwyso'n drwm ar dystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n creu addysg a hyfforddiant o safon i athrawon mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Yn olaf, wrth edrych tua'r dyfodol, rwyf wedi siarad yn fanwl â'r Athro Graham Donaldson am oblygiadau ei Adolygiad diweddar yntau o'r Cwricwlwm ac Asesu ar gyfer dyfodol addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rwyf mewn sefyllfa erbyn hyn i gynnig adroddiad rhagarweiniol er mwyn ichi gael ei ystyried.

Mae i'r adroddiad ddwy ran, bob un yn canolbwyntio ar yr angen am newid yn y system gyfredol. Yn rhan un rwy'n nodi'r prif heriau sydd yn fy marn i yn wynebu'r sector addysg gychwynnol athrawon – y rhesymau dros newid. Yn rhan dau rwy'n cynnig amryw o opsiynau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth. Ym mhob achos rwy'n gwneud argymhellion o ran y camau mwyaf priodol i'w cymryd yn fy marn bersonol i. Er hynny, mae'n amlwg mai mater i chithau ac i Lywodraeth Cymru ei hunan yw penderfynu pa rai o'r opsiynau a amlinellwyd sydd fwyaf priodol.

Ar ôl i chi a'ch swyddogion gael cyfle i ystyried yr adroddiad a phenderfynu pa opsiynau y dylech fynd ar eu hôl, fe fyddaf finnau'n fodlon dechrau gweithio gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth a'r tu allan iddi er mwyn helpu i greu'r newidiadau angenrheidiol. Os bydd y Llywodraeth, asiantaethau cenedlaethol, ysgolion ac addysg uwch yn gweithio gyda'i gilydd ar gynllun cytûn, yna rwy'n siŵr y gwelwn ni yng Nghymru, cyn rhy hir, sector addysg a hyfforddiant athrawon i ymfalchïo ynddo; un a all helpu i wireddu'r dyheadau mawr sydd gennych chi a'ch Llywodraeth ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

Yn gywir,

Yr Athro John Furlong
Cynghorydd HCA Llywodraeth Cymru

Cydnabyddiaeth

Mae ystod eang o unigolion a sefydliadau wedi helpu i ddatblygu'r adroddiad hwn. Hoffwn ddiolch i'r cydweithwyr uwch yn y sector addysg a hyfforddiant athrawon, staff uwch prifysgolion, cydweithwyr yn y Consortia rhanbarthol a phenaethiaid ac uwch-athrawon eraill yng Nghymru a roddodd eu hamser yn llawen i siarad â mi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n gwerthfawrogi hefyd yr amser a roddodd cydweithwyr yn y gwahanol gyrff cenedlaethol sydd â chyfran mewn addysg athrawon – Estyn, CCAUC, CyngACC, UCET Cymru. Hoffwn roi diolch yn arbennig i dîm HCA Llywodraeth Cymru sydd, er eu bod wedi parchu fy annibyniaeth yn llwyr, wedi bod yn effeithlon ac yn barod iawn eu cymorth imi yn fy ngwaith. Yn olaf, hoffwn gydnabod cydweithwyr ledled y Deyrnas Unedig, yn Iwerddon a'r tu hwnt (Patricia Broadfoot, John Coolahan, Graham Donaldson, Richard Daugherty, Joe Hallgarten, Hazel Hagger, Nick Johnson, Gordon Kirk, Áine Lawlor, Ian Menter, Pamela Munn, James Noble Rogers, Pasi Sahlberg a Geoff Whitty) sydd wedi ymwneud â'm syniadau i wrth i'r rheiny ddatblygu dros y 12 mis diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, yn ogystal â gweithio yng Nghymru, rwyf wedi cael y fraint o weithio gyda chydweithwyr ar Ymchwiliad BERA-RSA i rôl ymchwil mewn addysg i athrawon ac ar adolygiad Llywodraeth Gogledd Iwerddon o seilwaith addysg gychwynnol athrawon. Fy nghyfrifoldeb i yn unig yw'r dadansoddiad a'r cynigion a welir yn yr adroddiad hwn, ond maen nhw wedi elwa'n sylweddol drwy gyfraniad yr holl wahanol gydweithwyr hyn wrth gael eu datblygu.

Cynnwys

A. Addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru – yr achos o blaid newid **4**

1. Addysg athrawon yng Nghymru – rhesymau dros newid 5
2. Beth mae tystiolaeth yr ymchwil ryngwladol yn ei ddweud wrthon ni am addysg gychwynnol athrawon o safon? 8
3. Sut mae'r ddarpariaeth gyfredol yng Nghymru wedi'i threfnu? 9
4. Beth yw cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth gyfredol o'i meincnodi yn erbyn y dystiolaeth ryngwladol? 10
5. Y lefel genedlaethol 11
6. Lefel y sefydliad 14
7. Lefel y rhaglen 17
8. Casgliad 20

B. Addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru – opsiynau ar gyfer newid **21**

9. Opsiynau ynglŷn ag achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn y dyfodol 23
10. Opsiynau ynglŷn â chorff achredu yn y dyfodol 26
11. Rôl Estyn yn y dyfodol 28
12. Opsiynau ynglŷn â dyfodol y radd BA Cynradd (Anrh) SAC (y BEd) 30
13. Opsiynau ynglŷn â gwella ansawdd dechreuwyr yn y proffesiwn 33
14. Opsiynau ynglŷn â dyfodol capasiti ymchwil sy'n ymwneud â'r proffesiwn 35
15. Darparwyr prifysgol 38
16. Casgliad 42

Rhestr argymhellion 43

Cyfeiriadau 44

ADRAN A

Addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru – yr achos o blaid newid

1. Addysg athrawon yng Nghymru – rhesymau dros newid

Mae angen i addysg gychwynnol athrawon[1] yng Nghymru newid am ddau reswm pur wahanol. Yn gyntaf, mae angen iddi newid am fod yna gonsensws eang nad yw hi, er gwaethaf rhai cryfderau yn y ddarpariaeth gyfredol, yn ddigon uchel ei safon i ateb anghenion Cymru nawr nac yn y dyfodol. Yn ei adroddiad diweddar ar addysg gychwynnol athrawon mynegodd yr Athro Ralph Tabberer y broblem yn foel fel hyn:

> Digonol yw safon HCA yng Nghymru ar hyn o bryd, a dim gwell. Ni ddaw'r farn hon o gasgliadau Estyn yn unig, sydd bron â bod wedi cyflawni deuparth rhaglen o archwilio'r tair Canolfan HCA newydd yng Nghymru. Mae darparwyr, swyddogion a rhanddeiliaid blaenllaw yn rhannu'r asesiad hwn. (Tabberer 2013: para 36)

Yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2012-3, mynegodd Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Estyn farn debyg pan ddywedodd:

> Nid ydym wedi bod yn recriwtio digon o athrawon dan hyfforddiant â'r cymwysterau gorau, ac mae angen mwy o gysondeb arnom o ran ansawdd yr hyn a ddarperir ar eu cyfer mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon, er mwyn rhoi'r cychwyn gorau iddynt yn eu gyrfa addysgu. (Estyn 2013: 41).

Ym mis Ebrill 2014, nododd yr OECD fod angen rhagor o welliannau, er eu bod yn cydnabod bod yna awydd i ddiwygio. Roedden nhw'n dadlau ei bod yn arbennig o bwysig denu dechreuwyr newydd yn y proffesiwn addysgu, gwella ansawdd y dechreuwyr hynny a chodi safon y ddarpariaeth a oedd yn cael ei chynnig er mwyn ei gwneud yn fwy deniadol i ddarpar ymgeiswyr. Dadleuwyd (t 66) mai adeiladu cyfalaf proffesiynol a chydgyfrifoldeb drwy'r system i gyd oedd un o'r pedair blaenoriaeth yr oedd angen i Lywodraeth Cymru roi sylw iddyn nhw ar fyrder.

Gan hynny, mae angen i ansawdd y ddarpariaeth wella. Ond mae yna reswm arall, a hwnnw'n bwysicach byth o bosibl, fod angen diwygiadau, ac mae hwn yn ymwneud â'r newid yn natur addysg ysgolion yn yr 21ain ganrif. Yn ein hadroddiad ni yn 2006 ynghylch 'Darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru', cyfeiriodd fy nghydweithwyr a mi (Furlong et al 2006) at y nifer fawr o heriau a oedd yn wynebu dyfodol y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Awgrymwyd mai un o'r heriau mwyaf

1. Mewn dogfennau polisi yn y Deyrnas Unedig, mae paratoadau proffesiynol cychwynnol athrawon yn cael eu disgrifio mewn amryw o ffyrdd. Yn Lloegr, ac yn wir yng Nghymru hyd yn hyn, mynnwyd defnyddio'r term 'hyfforddiant' – ac felly 'hyfforddiant cychwynnol athrawon' neu 'HCA'. Yn yr adroddiad hwn, 'addysg gychwynnol athrawon' neu 'AGA' yw'r term sydd wedi'i ddefnyddio, a hynny am fod y gair 'addysg' yn cael ei ddefnyddio fel term cynhwysol. Derbynnir yn llwyr fod cyrsiau AGA o reidrwydd yn cynnwys elfennau pwysig o 'addysg' ac o 'hyfforddiant'.

oedd y byddai rhaid i 'athrawon yfory' ymateb i'r newid yn natur gwybodaeth yn y gymdeithas. Mewn byd sy'n newid yn gyflym, bydd angen nid yn unig i athrawon fod yn arbenigwyr ar addysgu rhyw***beth*** (hanes, cemeg neu fathemateg), ond hefyd iddyn nhw fod yn arbenigwyr o ran addysgu eu myfyrwyr i 'ddysgu sut i ddysgu'. Roedden ni'n dadlau bod rhaid i hyn fod yn un o'r deilliannau dysgu allweddol i fyfyrwyr yr 21ain ganrif. Dyma her sydd wedi'i chodi gan nifer cynyddol o wledydd ledled y byd ac un sy'n creu goblygiadau mawr o ran ffurf a chynnwys addysg gychwynnol athrawon.

Yn 2006, cyfeiriodd fy nghydweithwyr a mi hefyd at ffactorau pwysig eraill a oedd yn effeithio ar addysgu: newidiadau demograffig sy'n arwain at gymdeithas fwyfwy amrywiol yng Nghymru; y newid yn strwythurau cyflogi'r ysgolion lle gwelir pwyslais cynyddol ar gydweithredu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc; y ffaith bod rhieni'n mynd yn ddefnyddwyr mwyfwy craff sydd â disgwyliadau cynyddol ynglŷn â champau'r ysgolion, eu gwybodaeth a'u prosesau ymgynghori; a'r gydnabyddiaeth gynyddol ynglŷn ag ymarfer ar sail tystiolaeth sy'n codi lefel y drafodaeth ar arferion effeithiol. Dadleuwyd bod yr holl heriau hyn yn debyg o gael eu hychwanegu at y galw cyson o du rhieni, y Llywodraeth ac aelodau eraill o'r gymuned am godi safonau addysg ymhellach.

Pe bai Cymru am sicrhau'r system ysgolion yr oedd arni ei hangen a'i heisiau yn y dyfodol, yna roedd yn ymddangos yn glir i ni fod angen i'r proffesiwn addysgu roi arweiniad. Mae ar Gymru angen math newydd o broffesiynoldeb ymysg ei hathrawon. Mae arni angen athrawon:

- sydd â disgwyliadau uchel o ran cyrhaeddiad eu holl ddisgyblion ac ymroddiad iddo;
- sy'n cymryd cyfrifoldeb dros arloesi;
- sy'n mwynhau newid ac yn helpu i'w arwain;
- sy'n gallu canolbwyntio'n fwy miniog ar anghenion dysgwyr unigol, gan gynnwys eu cynorthwyo i 'ddysgu sut i ddysgu';
- sy'n derbyn galwadau iddyn nhw fod yn atebol, ac sy'n ymateb i'r galwadau hynny;
- sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb personol a chydgyfrifoldeb dros ddatblygu proffesiynol;
- sy'n gallu gwerthuso a defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth sy'n berthnasol i welliannau mewn arferion;
- sy'n fodlon gweithio mewn cydweithrediad ag athrawon eraill a gweithwyr proffesiynol eraill o ddydd i ddydd ac wrth ddatblygu eu harferion;
- sy'n fodlon ac yn abl i weithio mewn ffyrdd sy'n elwa ar yr arferion gorau ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Nid yw'r un o'r heriau a welsom yn 2006 wedi lleihau yn y blynyddoedd wedyn; yn wir mewn llawer o ffyrdd mae'r pwysau ar y proffesiwn wedi cynyddu.

Yr hyn sydd ***wedi*** newid yn y misoedd diwethaf yw bod adolygiad Llywodraeth Cymru o'r cwricwlwm ac asesu, o dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson (Donaldson 2015), bellach wedi codi llawer o'r materion hyn i frig yr agenda polisi.

Mae cynigion Donaldson yn awgrymu gweledigaeth newydd ar gyfer y cwricwlwm ac asesu. Yn hytrach na throsglwyddo stôr o wybodaeth sydd wedi ennill ei phlwyf, mae'r Adolygiad yn dadlau y dylai'r Cwricwlwm ganolbwyntio ar bedwar nod. Dylai anelu at greu: dysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. O ganlyniad, yn lle cael ei seilio ar bynciau traddodiadol, mae'r Adolygiad yn argymell y dylai'r cwricwlwm gael ei drefnu ar sail chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' allweddol (celfyddydau mynegiannol; iechyd a llesiant; dyniaethau; ieithoedd, llenyddiaeth a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg) ac y dylai'r athrawon eu hunain gael llawer mwy o ryddid wrth ddewis deunyddiau sy'n briodol at anghenion eu dysgwyr. Mae'r Adolygiad hefyd yn cynnig y dylai ***pob*** athro ac athrawes fod yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, y dylid canolbwyntio'n fwy ar ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob ysgol, ac y dylai llawer mwy o bwyslais gael ei roi ar asesiadau o dan arweiniad athrawon nag a geir ar hyn o bryd.

Fel y mae'r Adolygiad yn nodi, bydd i'r cynigion hyn oblygiadau pwysig i'r gweithlu addysgu. Bydd mwy o reolaeth dros y cwricwlwm yn gofyn 'llawer mwy na gweithredu repertoire o ddulliau sydd wedi'i bennu ymlaen llaw ac yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a'r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu'. (Donaldson 2015: 58). Bydd y cynigion ynglŷn ag asesu yn gofyn 'dealltwriaeth sicr a manwl o'r cwricwlwm ac o'r cyfraniad gan asesu ffurfiannol a chyfunol ynghyd â'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chynllunio a dehongli'r amrywiaeth fawr o dechnegau sydd eu hangen ar gyfer asesu da' (t 69). Bydd goblygiadau pwysig yn deillio hefyd o'r ffocws cynyddol ar lythrennedd digidol a'r Gymraeg.

Yn fyr, bydd cynigion Adolygiad Donaldson yn dod â goblygiadau arwyddocaol o ran ffurf a chynnwys addysg athrawon – sef addysg gychwynnol athrawon a datblygu proffesiynol parhaus (DPP). Y cyntaf o'r ddau hyn yw prif ffocws yr adroddiad hwn – addysg gychwynnol athrawon (AGA) – ond fel y gwelir yn glir mewn adrannau eraill yn nes ymlaen yn yr adroddiad, ceir cysylltiadau hanfodol bwysig â DPP hefyd.[2] Yr hyn y mae ei angen yng Nghymru yw mathau o AGA a DPP a fydd yn caniatáu ac yn hybu math newydd o broffesiynoldeb ymysg athrawon, o'r math sydd wedi'i gynnig gan Donaldson; sef un sy'n briodol ar gyfer heriau addysg ysgolion yr 21ain ganrif.

2. Mae pwysigrwydd cysylltu AGA a DPP yn rhywbeth sydd wedi'i nodi mewn adolygiadau ar addysg athrawon sydd wedi'u cynnal yn ddiweddar ar draws y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: yn yr Alban (Donaldson, 2011), Gweriniaeth Iwerddon (Sahlberg et al 2011), Gogledd Iwerddon (DEL 2014) a Lloegr (Carter 2015).

2. Beth mae tystiolaeth yr ymchwil ryngwladol yn ei ddweud wrthon ni am addysg gychwynnol athrawon o safon?

Sut beth yw addysg gychwynnol athrawon o safon a sut mae'r ddarpariaeth gyfredol yng Nghymru yn cymharu â hyn? I ateb y cyntaf o'r ddau gwestiwn hyn, dadlennol yw edrych ar y dystiolaeth yn yr ymchwil ryngwladol. Y llynedd, lluniodd Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain (BERA), gan weithio mewn cydweithrediad â Chymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA), adolygiad o'r dystiolaeth yn yr ymchwil ryngwladol ar addysg athrawon o safon (BERA-RSA 2014). Comisiynodd yr Ymchwiliad saith tîm o ymchwilwyr i adolygu'r dystiolaeth ryngwladol ar amryw o ddimensiynau gwahanol ar addysg athrawon; arweiniodd alwad genedlaethol am dystiolaeth hefyd a chynnal cyfres o gyfarfodydd ymgynghori ledled y Deyrnas Unedig.

O ganlyniad i'w hymchwiliad, mae BERA-RSA yn dadlau bod yna dystiolaeth gadarn i awgrymu bod gan addysg gychwynnol athrawon o safon y pum nodwedd graidd a ganlyn.

Mae'r rhaglenni gorau yn rhyngwladol:

- yn sicrhau bod rhaglenni AGA yn denu'r ymgeiswyr gorau a mwyaf addas i'r proffesiwn addysgu;
- yn cynnig dyfarniadau academaidd sy'n gystadleuol, sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sydd wedi'u hadeiladu ar ymchwil addysgol berthnasol;
- yn meithrin cysylltiadau cryf rhwng theori ac ymarfer, mewn ffordd sy'n helpu'r myfyrwyr i ddeall ac i ystyried y cysylltiadau rhwng theorïau addysg ac arferion yr ystafell ddosbarth;
- yn sefydlu cysylltiadau cryf rhwng addysg gychwynnol athrawon a datblygu proffesiynol parhaus athrawon mewn ysgolion;
- yn sicrhau bod yr holl egwyddorion uchod yn cael eu seilio ar ddealltwriaeth glir o dystiolaeth am sut mae darpar athrawon yn dysgu addysgu a bod y cyrsiau eu hunain yn destun gwaith ymchwilio a datblygu drwy'r amser.

Er mwyn iddi gyrraedd y safon orau, mae hyn yn awgrymu bod ar addysg gychwynnol athrawon angen i'w phrifysgolion ddarparu cyrsiau cryf, sydd wedi'u seilio ar ymchwil; bod arni angen system ysgolion sy'n fodlon cymryd cyfrifoldeb a rhoi arweiniad yn rhannau allweddol yr holl raglenni; a bod angen iddi sicrhau bod y gydran yn y brifysgol a'r gydran yn yr ysol wedi'u hintegreiddio'n ofalus â'i gilydd. Mae i ganfyddiadau BERA-RSA oblygiadau hollbwysig hefyd o ran y safonau statudol, 'Safonau Athrawon Newydd Gymhwyso' sy'n sail i'r ddarpariaeth.

3. Sut mae'r ddarpariaeth gyfredol yng Nghymru wedi'i threfnu?

O ganlyniad i'r newidiadau yn y drefniadaeth a gyflwynwyd yn sgil adolygiad 2006, mae addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru yn cael ei darparu erbyn hyn drwy dair canolfan brifysgol gydweithredol – Canolfan y Gogledd a'r Canolbarth o dan arweiniad prifysgolion Bangor ac Aberystwyth, Canolfan y De-ddwyrain o dan arweiniad Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, a Chanolfan y De-orllewin o dan arweiniad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn cael ei harwain gan y prifysgolion ond cydategir hyn gan ddwy raglen fach sydd wedi'u seilio ar gyflogaeth – y Rhaglen Athrawon Graddedig a Teach First, er bod gan y ddwy raglen hyn gysylltiadau cryf â sector y prifysgolion hefyd. Mae tri chwarter y ddarpariaeth o dan arweiniad y prifysgolion wedi'i ddynodi ar gyfer y llwybr TAR ôl-raddedig, a chwarter ar gyfer y llwybr israddedig. Mae darpariaeth gynradd ac uwchradd ar gael ym mhob un o'r tair canolfan brifysgol; mae pob un o'r tair canolfan hefyd yn cynnig yr un amrediad o 'bynciau blaenoriaeth' uwchradd er bod rhywfaint o amrywio o ran y pynciau uwchradd eraill a gynigir ym mhob canolfan. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob un o'r tair canolfan ar gyfer rhaglenni cynradd ac uwchradd. Ar ben hynny, ceir cymorth penodol gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr y mae arnyn nhw angen cymorth ychwanegol i godi eu hyder i addysgu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae manylion y ddarpariaeth addysg gychwynnol athrawon ar draws Cymru i'w gweld yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1: Niferoedd Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru (2014/5) fesul Canolfan, Cyfnod, Llwybr a Phwnc

Uwchradd	
Darpariaeth o dan arweiniad y prifysgolion	
Uwchradd Israddedig	
Y Gogledd a'r Canolbarth	14[1]
Y De-ddwyrain	81[2]
Y De-orllewin	0
Cyfanswm Uwchradd Israddedig	95
Uwchradd TAR	
Y Gogledd a'r Canolbarth	243[3]
Y De-ddwyrain	270[4]
Y De-orllewin	272[5]
Cyfanswm Uwchradd TAR	785
Cyfanswm Uwchradd – o dan arweiniad y prifysgolion	880
Darpariaeth ar sail cyflogaeth	
Teach First	50
Y Rhaglen Athrawon Graddedig	30
Cyfanswm Uwchradd	960

Cynradd	
Darpariaeth o dan arweiniad y prifysgolion	
Cynradd Israddedig	
Y Gogledd a'r Canolbarth	83
Y De-ddwyrain	104
Y De-orllewin	113
Cyfanswm Cynradd Israddedig	300
Cynradd TAR	
Y Gogledd a'r Canolbarth	174
Y De-ddwyrain	123
Y De-orllewin	153
Cyfanswm Cynradd TAR	450
Cyfanswm Cynradd – o dan arweiniad y prifysgolion	750
Darpariaeth ar sail cyflogaeth	
Y Rhaglen Athrawon Graddedig	30
Cyfanswm cynradd	780
Cyfanswm AGA	1740

Pynciau â blaenoriaeth: Mathemateg, Cemeg a Ffiseg, Ieithoedd Modern, Cymraeg, Technoleg Gwybodaeth

1. Dylunio a Thechnoleg
2. Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Cymraeg, Cerddoriaeth
3. Pynciau â blaenoriaeth plws: Celf, Bioleg a Gwyddorau Integredig, Drama, Saesneg, Daearyddiaeth, Hanes, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Gweithgareddau Awyr Agored
4. Pynciau â blaenoriaeth plws: Celf, Bioleg a Gwyddorau Integredig, Dylunio a Thechnoleg, Drama, Saesneg, Hanes, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol
5. Pynciau â blaenoriaeth plws: Celf, Bioleg a Gwyddorau Integredig, Astudiaethau Busnes, Dylunio a Thechnoleg, Saesneg, Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol

4. Beth yw cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth gyfredol o'i meincnodi yn erbyn y dystiolaeth ryngwladol?

Fel y nodwyd eisoes, ceir consensws eang ledled Cymru nad yw addysg gychwynnol athrawon mor gryf ag y dylai fod, o'i chymharu â'r gofynion cyfredol. Ond mae yna dystiolaeth hefyd fod agweddau allweddol ar y gofynion cyfredol hyn ymhell o gyrraedd y nod o ran yr arferion gorau a awgrymir gan y dystiolaeth ryngwladol. Maen nhw ymhell o gyrraedd y nod hefyd o ran yr hyn a fydd yn angenrheidiol os caiff argymhellion Adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm ac Asesu eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi a chyfarfodydd ag ystod eang o randdeiliaid ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n glir bod yna wendidau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd ar amryw o lefelau gwahanol: ar y lefel genedlaethol, ar lefel y sefydliad ac ar lefel y rhaglen. Trafodir pob un isod.

5. Y lefel genedlaethol

5.1 Yr angen am gydlynedd ac arweinyddiaeth fwy effeithiol

Bernir yn eang ar draws y sector addysg uwch nad yw addysg gychwynnol athrawon yn cael ei harwain yn dda ar y lefel genedlaethol ar hyn o bryd. Yn ystod ymweliadau â sefydliadau, rhoddodd cydweithwyr mewn addysg uwch lawer o enghreifftiau o ddiffyg cyfathrebu, problemau ynglŷn â negeseuon carbwl, a'r ffaith bod gwaith arloesi yn aml yn digwydd yn y sector ysgolion heb gysylltiad systemataidd â gwaith addysg gychwynnol athrawon. Does dim modd cadarnhau *pob un* o'r beirniadaethau hyn ac erbyn hyn mae yna dystiolaeth bod cyrff cenedlaethol yn gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod y canolfannau addysg athrawon yn cael gwybod yn llawn am ddatblygiadau polisi perthnasol a bod addysgwyr athrawon eu hunain yn gallu cyfrannu at ddatblygiadau polisi lle bo'n briodol.

Er hynny, mae'r broblem yn ddyfnach na chyfathrebu'n unig. Yr hyn y mae'r beirniadaethau hyn yn ei ddatgelu yw nad yw'n glir ar hyn o bryd pwy neu ba gorff sy'n gyfrifol am roi arweinyddiaeth i'r sector. Mae gan CCAUC a'r Adran Addysg a Sgiliau rolau gweinyddol pwysig y mae'n ymddangos eu bod yn eu cyflawni'n briodol, ac mae'r Grŵp Cyswllt Addysg Athrawon cyfredol,[3] pan fo'n gweithio'n dda, yn gallu sianelu gwybodaeth rhwng y gwanhaol randdeiliaid a gynrychiolir arno. Er hynny, mae cydlynu a chyfathrebu, hyd yn oed pan fôn nhw'n gweithio'n dda (nad yw bob amser yn wir) yn bur wahanol i arweinyddiaeth strategol. Yn Lloegr, mae'r Coleg Cenedlaethol Addysgu ac Arwain yn rhoi'r arweinyddiaeth honno i'r sector, ac yn yr Alban mae Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban yn ysgwyddo'r un rôl. Yng Nghymru ar hyn o bryd mae yna wagle o ran arweinyddiaeth sefydliadol ac o ran carfan gref o unigolion sy'n fodlon ac yn abl i ymgymryd â rolau arwain cenedlaethol. Heb arweinyddiaeth effeithiol, fydd dim llawer o obaith y gall y sector ymateb i'r nifer fawr o heriau a godir gan yr argymhellion yn Adolygiad Donaldson. A heb arweinyddiaeth effeithiol does dim llawer o gyfle i'r sector feincnodi ei waith cyfredol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a dod yn system sy'n ei gwella'i hun. O gofio'r diffyg arweinyddiaeth yn y sector ar hyn o bryd, efallai nad yw'n syndod nad yw ansawdd y rhaglenni mor gryf ag y dylai fod.

5.2 Arolygiadau Estyn

Mae arolygiadau Estyn o waith y darparwyr o dro i dro yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau, ac yn ddelfrydol o ran gwella, ansawdd y ddarpariaeth addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. O ran egwyddor, mae yna gefnogaeth eang i'r system. Serch hynny, ceir cryn anfodlonrwydd ymysg llawer o'r rhanddeiliaid ynglŷn â gallu Estyn ar hyn o bryd i ymgymryd yn brydlon â'u harolygiadau. Ar hyn o bryd, dim ond dwy o'r tair canolfan sydd wedi'u harolygu o fewn y cyfnod amser arferol o chwe blynedd.

3. Mae'r Grŵp Cyswllt Addysg Athrawon (TELG) sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn yn dod â chynrychiolwyr at ei gilydd o Gyfadrannau ac Adrannau Addysg y Prifysgolion, UCET, Estyn, CCAUC, CyngACC a Llywodraeth Cymru. Prif ddiben y cyfarfodydd yw cyfnewid gwybodaeth am y datblygiadau cyfredol mewn addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru.

O ganlyniad i alwadau eraill ar Estyn, mae'r ganolfan arall (Canolfan y Gogledd a'r Canolbarth) heb gael arolygiad llawn eto.[4] Mae'n eglur nad yw hynny'n ffordd effeithiol na phriodol o fonitro nac o reoli ansawdd. Ar ben hynny, mae rhai rhanddeiliaid wedi amau a yw'r broses arolygu bresennol, a'i phwyslais cryf ar atebolrwydd cyhoeddus, mor effeithiol ag y dylai fod o ran cyfrannu at wella ansawdd.

5.3 Safonau Statws Athro Cymwysedig

Mae'r Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC) sy'n cael eu cyhoeddi a'u diweddaru o dro i dro gan Lywodraeth Cymru yn chwarae rhan hollbwysig wrth reoli addysg athrawon yng Nghymru. Cafodd safonau ynglŷn ag addysg gychwynnol athrawon eu cyflwyno yng Nghymru yn wreiddiol yng nghanol y 1990au gan Lywodraeth San Steffan cyn datganoli ac er eu bod wedi'u diweddaru ers cael eu cyflwyno, does dim newid sylfaenol wedi bod o safbwynt y cysyniad. O ganlyniad, o ran eu cysyniad, mae safonau cyfredol SAC yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn dal yn set o 'gymwyseddau' sydd wedi'u seilio ar ymddygiad: pethau y mae'n rhaid i athrawon sydd newydd gymhwyso 'eu gwybod a'u gwneud'. Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft, rhaid i'r myfyrwyr fod 'yn gwybod ac yn deall y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*'; rhaid i bob athro ac athrawes 'osod amcanion addysgu a dysgu ymestynnol sy'n berthnasol i bob dysgwr yn eu dosbarthiadau'; a 'gwneud defnydd priodol o ystod o strategaethau monitro ac asesu i werthuso cynnydd dysgwyr tuag at amcanion dysgu a gynlluniwyd, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu cynllunio a'u haddysgu eu hunain'.

Ceir nifer o anawsterau ynglŷn â safonau sydd wedi'u seilio ar gysyniadau o'r fath. Er enghraifft, mewn cyferbyniad â safonau tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol,[5] nid yw'r safonau cyfredol yng Nghymru yn cyfleu gwaith dysgu athrawon mewn modd datblygiadol. Does dim cysylltiadau ffurfiol â Safonau Ymarferwyr Addysg (Llywodraeth Cymru 2011); y cyfan a ddisgwylir oddi wrth athrawon sydd newydd gymhwyso yw eu bod yn gwbl ymarferol gymwys wrth ddechrau yn y proffesiwn. Un o ganlyniadau hyn yw nad yw'r Safonau'n rhoi fawr ddim pwyslais ar gyfraniad addysg gychwynnol athrawon at ddatblygiad proffesiynol athrawon yn y tymor hir. Mae Safonau Cymru hefyd yn rhoi llawer llai o bwyslais ar 'wybod a deall' na safonau gwledydd eraill. Am eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y mae'n rhaid i athrawon newydd gymhwyso allu ei 'wneud' ar ddiwedd eu rhaglenni, does prin ddim cydnabyddiaeth bendant i rôl ymchwil na myfyrdod beirniadol yng ngwaith dysgu proffesiynol athrawon. O ganlyniad, does dim cysyniad o athrawon newydd gymhwyso fel gweithwyr proffesiynol gweithredol, a does dim disgwyl iddyn nhw fod yn weithwyr proffesiynol gweithredol o'r fath, yn arddel eu barn eu hunain ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau eu hunain fel *arweinwyr* gwaith dysgu'r plant.

Mae'n anodd gor-ddweud effaith y cysyniad cul hwn o safonau athrawon ar ddarpariaeth addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Dyma sylfaen arolygiadau Estyn. A chan

4. Y tro diwethaf i raglenni AGA Prifysgol Bangor gael eu harolygu oedd 2004-5 a'r tro diwethaf i raglenni Aberystwyth oedd 2007. Mae Estyn wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddan nhw'n arolygu darpariaeth AGA Canolfan y Gogledd a'r Canolbarth yn hanner cyntaf 2015.

5. Gweler er enghraifft y safonau cyfatebol i athrawon Awstralia a gyhoeddwyd gan Sefydliad Addysgu ac Arweinyddiaeth Ysgolion Awstralia http://www.aitsl.edu.au/australian-professional-standards-for-teachers/standards/list

mai adroddiadau Estyn yw'r sylfaen y bydd CCAUC yn achredu ac ailachredu rhaglenni arni, mae gallu rhaglen i 'gyflawni' safon uchel yn unol â diffiniad y Safonau yn eithriadol o bwysig.

O gofio arwyddocâd y Safonau, efallai nad yw'n syndod eu bod mewn llawer o achosion wedi mynd yn gwricwlwm *de facto* mewn llawer o raglenni addysg athrawon. Fel y dywedodd yr Athro Tabberer yn ei Adroddiad, ran amlaf ni allai weld rhesymeg dros ddyluniad llawer o raglenni heblaw gofynion y Safonau eu hunain. Mae'r Safonau wedi dylanwadu'n anuniongyrchol hefyd ar bwy sy'n cael ei recriwtio gan y prifysgolion i addysgu ar eu rhaglenni addysg athrawon a sut maen nhw'n eu datblygu. Os yw'r prifysgolion am gael eu hasesu, a dim ond eu hasesu, ar sail i ba raddau y gallan nhw baratoi myfyrwyr ar gyfer realiti ymarferol beunyddiol yr ystafell ddosbarth, yna y staff gorau i'w recriwtio yw'r rhai sydd eu hunain newydd ymadael â'r ystafell ddosbarth. Ar ben hynny, o gofio nad oes cyfeiriad o gwbl yn y Safonau at ymchwil nac at yr angen i ddatblygu darpar athrawon fel defnyddwyr beirniadol ymchwil nac fel cyfranogwyr ynddi, does fawr o angen i'r prifysgolion helpu eu staff i ddatblygu fel darlithwyr prifysgol sy'n weithgar mewn ymchwil. Unwaith eto, mewn awdurdodaethau eraill, mae safonau'n gosod gweledigaeth wahanol iawn ar gyfer cyfraniad y prifysgolion.

Ond fel y nodwyd eisoes, mae newid yn yr arfaeth. Mae cysyniad rôl yr athro sy'n ymhlyg yn y Safonau cyfredol yn sylfaenol wahanol i'r hyn sydd wedi'i ddychmygu yn Adolygiad Donaldson. Yno *mae* athrawon yn cael eu gweld fel gweithwyr proffesiynol gweithredol sydd â chyfrifoldebau o bwys dros agweddau allweddol ar ddylunio'r cwricwlwm a'r asesu, yn ogystal â rhoi'r rheiny ar waith. Fel y mae Adolygiad Donaldson ei hun yn dadlau, 'Mae'r rhagnodi a manylu helaeth sydd yn y cwricwlwm cenedlaethol, ynghyd â mecanweithiau atebolrwydd sy'n gynyddol bwerus, wedi tueddu i greu diwylliant lle y mae rôl greadigol yr ysgol wedi'i lleihau a chyfraniad proffesiynol y gweithlu wedi'i danddatblygu.' (Donaldson 2015: 9). Os caiff argymhellion yr adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, yna bydd hynny'n newid. Mae Adolygiad Donaldson yn mynnu cysyniadau sylfaenol newydd ar gyfer holl Safonau addysgu Cymru – o'r Safonau Statws Athro Cymwysedig drwodd i'r Safonau ar gyfer Penaethiaid.

6. Lefel y sefydliad

6.1 Tystiolaeth Estyn ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth

Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith bod Estyn, drwyddi draw, wedi codi cwestiynau am ansawdd y ddarpariaeth gyfredol yng Nghymru. Ymhelaethwyd ar y pryderon hyn yn yr arolygiadau unigol ar Ganolfan y De-orllewin a Chanolfan y De-ddwyrain sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn. Er enghraifft, dywedodd yr arolygiad llawn olaf yng Nghanolfan Addysg Athrawon y De-orllewin yn 2012 mai 'digonol' oedd y perfformiad cyfredol a bod y 'rhagolygon ar gyfer gwella' yn 'dda'. Yn fwy diweddar, daeth adroddiad monitro ar y ganolfan hon i'r casgliad bod y mwyafrif o'r argymhellion wedi cael sylw erbyn hyn. Yn 2013, barnwyd bod darpariaeth gyfredol Canolfan Addysg Athrawon y De-ddwyrain yn 'ddigonol', ond bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn 'anfoddhaol'. Ym mis Medi 2014, nododd adroddiad monitro ar y ganolfan hon gynnydd arwyddocaol o ran argymhellion Estyn ond nid yw'r adroddiad ei hun wedi'i gyhoeddi eto. Fel y nodwyd eisoes, does dim arolygiad wedi'i gwblhau eto o Ganolfan Addysg Athrawon y Gogledd a'r Canolbarth, er bod un yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

6.2 Cydweithredu rhwng y canolfannau

Yn sgil Adolygiad 2006, bu'n ofynnol i chwe darparwr a oedd yn bodoli bryd hynny ddod at ei gilydd yn dair canolfan, bob un wedi'i seilio ar gydweithredu rhwng dwy brifysgol gyfagos. Ers hynny, mae dwy o'r prifysgolion hynny (Coleg y Drindod, Caerfyrddin a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe) wedi uno i ffurfio Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fel bod pum prifysgol bellach yn cymryd rhan yn y tair canolfan. Un o'r prif resymau dros ddatblygu'r canolfannau oedd sicrhau bod digon o gapasiti ar gael o hyd yn y sector addysg uwch ar adeg pan oedd rhaid i niferoedd y myfyrwyr mewn addysg athrawon gael eu torri'n sylweddol.[6] Yn ystod y broses ad-drefnu, cafodd niferoedd y prifysgolion eu gwarchod er mwyn iddyn nhw ddatblygu cyrsiau newydd nad oedden nhw'n gysylltiedig ag SAC, gan sicrhau felly fod eu cyfadrannau a'u hadrannau addysg yn parhau'n hyfyw o safbwynt ariannol. Un canlyniad cadarnhaol yn sgil ad-drefnu yw bod yr holl gyfadrannau addysg ar draws y sector wedi llwyddo i arallgyfeirio a'u bod bellach yn cynnig ystod o gyrsiau eraill.[7] O ganlyniad, mae AGA wedi parhau'n rhan o system sy'n hyfyw yn ariannol er ei bod hithau wedi lleihau'n sylweddol o ran maint.

Rhywbeth sydd wedi bod yn llai llwyddiannus, fodd bynnag, yw rhedeg y canolfannau eu hunain. Mae yna dystiolaeth helaeth, gan Estyn a chan randdeiliaid uwch ar draws y system, fod cydweithredu effeithiol wedi bod yn llawer mwy o her nag a ragwelwyd i ddechrau. Mae gan wahanol brifysgolion wahanol brosesau, o reidrwydd, a gwahanol weithdrefnau ar gyfer staffio, rheoli cyrsiau, sicrhau ansawdd, cyfrifon ariannol a llawer

6. Mae cyfanswm niferoedd y mewnlifiad i AGA wedi'i leihau o un rhan o dair – cyfanswm o 34%

7. Yn hyn o beth, mae'r system yng Nghymru wedi bod gryn dipyn yn fwy llwyddiannus na'r systemau yn naill ai'r Alban neu Ogledd Iwerddon sy'n dal i gynhyrchu gormod o athrawon (gweler, er enghraifft DEL 2014)

o bethau eraill hefyd. Er bod rhai manteision wedi'u crybwyll yn sgil cydweithredu, (er enghraifft, anfon neges fwy cydlynol at yr ysgolion sy'n bartneriaid i'r prifysgolion), mae dod â'r prifysgolion at ei gilydd mewn strategaeth reoli effeithiol i ganolfan unigol bob tro wedi llyncu amser ac weithiau wedi bod yn amhosibl. Her fwy uniongyrchol, o bosibl, i gysyniad y canolfannau fyddai gofyn: pe baen nhw'n gweithio'n dda, beth fyddai'r canolfannau'n ei ychwanegu at ansawdd a chydlynedd y ddarpariaeth. Ychydig yn unig o gydweithwyr yn y sector sydd fel petaen nhw'n fodlon neu'n abl i ateb y cwestiwn hwn yn gadarnhaol. Er gwaethaf y cyraeddiadau sylweddol sydd wedi'u cyflawni wrth reoli'r gostyngiad sylweddol mewn niferoedd mewn AGA ers 2006, mae'n ymddangos bellach ei bod yn ddoeth edrych eto ar gysyniad y canolfannau a gofyn ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

6.3 Arweinyddiaeth a chymorth y prifysgolion

Mae'r prifysgolion yng Nghymru yn dal yn ganolog i ddarpariaeth addysg gychwynnol athrawon. Yn wahanol i Loegr neu rai o daleithiau'r Unol Daleithiau, nid yw'n ymddangos bod fawr o awydd symud i ffwrdd oddi wrth ddarpariaeth sy'n cael ei harwain gan y prifysgolion. Er eu bod yn bwysig yn eu ffyrdd eu hunain, bach iawn o hyd yw'r llwybrau sydd wedi'u seilio ar gyflogaeth (GTP a Teach First), o'u cymharu â'r niferoedd sy'n ymrestru ar gyrsiau o dan arweiniad y prifysgolion. Mewn rhai ffyrdd, does dim syndod yn hyn. Mae gan brifysgolion Cymru draddodiad cryf iawn o ymwneud ag addysg athrawon.[8] Serch hynny, nid yw'r ffaith bod addysg athrawon yn dal yn broses sydd i raddau helaeth o dan arweiniad y prifysgolion yng Nghymru yn golygu o reidrwydd bod y sector wedi cael gwasanaeth da gan y prifysgolion cyfoes. O ran nifer o fynegeion allweddol, mae addysgwyr yr athrawon eu hunain fel petaen nhw'n cael llawer llai o gymorth na'u cydweithwyr mewn disgyblaethau eraill ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

O edrych ar gyfadrannau ac adrannau addysg cyfredol Cymru, mae tair nodwedd yn dod i'r amlwg fel dangosyddion allweddol ynglŷn ag ansawdd cymorth y prifysgolion. Y gyntaf yw'r ffaith na chafodd yr un academydd o unrhyw un o'r canolfannau addysg athrawon ei gofnodi yn 2014 ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). Mae cofnodion yr REF a'r Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE) ar gyfer addysg yng Nghymru wedi dirywio'n ddirfawr dros y tri chyfnod asesu diwethaf (gweler Furlong a White 2001) ac yn y cylch diweddar, dim ond Caerdydd, sy'n ymwneud ag addysg gychwynnol athrawon ar raddfa bur ddi-nod, a gofnodwyd. Nid cymryd rhan yn yr REF yw'r unig ddangosydd ar gyfer gweithgarwch ymchwil, ond mae'n feincnod hanfodol bwysig. Ar sail y meincnod hwn, Cymru sydd â'r proffil isaf o blith y pedair gwlad yn y Deyrnas Unedig ac mae'n llusgo'n bell ar ôl y lleill. Dangosydd arall yw nifer y staff a gyflogir ar gontractau addysgu yn unig yn y brifysgolion sy'n darparu addysg gychwynnol athrawon. Mae'r contractau'n amrywio'n bur sylweddol ar draws y gwahanol brifysgolion. Er hynny, ym Mangor er enghraifft, dim ond chwech o blith 39 o staff cyfartal ag amser-llawn sydd

8. Roedd Colegau Hyfforddiant Dydd yng Nghymru, a chanddyn nhw gysylltiad â phrifysgolion, ymysg y cynharaf i gael eu sefydlu ym Mhrydain – Caerdydd (1890), Aberystwyth (1892) a Bangor (1894). Dechreuodd colegau addysg athrawon, y mae llawer ohonyn nhw bellach wedi uno â phrifysgolion neu wedi dod yn brifysgolion eu hunain, ychydig yn gynt – sefydlwyd Coleg y Drindod, Caerfyrddin, ym 1847 ac yn fuan wedyn crëwyd colegau yng Nghaernarfon a Bangor ym 1855 a 1858. Cafodd pedwar o golegau i awdurdodau addysg lleol yn y Barri, Caerllion, Abertawe a Bangor eu sefydlu cyn 1914. Cafodd dau goleg arall, Coleg Dinas Caerdydd a Choleg Cartrefle, Wrecsam, eu sefydlu yn gynnar yn y 1950au.

ar gontract addysgu ac ymchwilio.[9] Yn Aberystwyth ceir saith o staff amser-llawn a 34 o staff rhan-amser; o'r 41 o staff hyn, contract addysgu yn unig oedd gan 31. Er bod gan y ddwy ganolfan arall fodelau staffio mwy cadarn, isel iawn yw'r allbwn o hyd yn nhermau ymchwil. Trydydd dangosydd ynglŷn â buddsoddi effeithiol fyddai niferoedd y staff sydd â doethuriaeth. Isel yw'r rhain hefyd; ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd er enghraifft, er gwaethaf y strwythur staffio cydnabyddedig dim ond 25% o'r staff academaidd yn yr adran Addysg sydd â doethuriaeth; ymysg cyn-staff Casnewydd, y ffigur yw 10% ac yng Nghanolfan y De-orllewin, y ffigur yw 14%. Yr hyn y mae'r ffigurau hyn gyda'i gilydd yn ei ddangos yw diffyg buddsoddiad a diffyg cymorth sylweddol gan y prifysgolion i'r staff yn eu hadrannau a'u cyfadrannau addysg.

Un her allweddol at y dyfodol, felly, yw sut y gall y prifysgolion gael eu hannog i gywiro'r diffyg buddsoddiad hirdymor hwn mewn sector sydd mor bwysig yn strategol yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

9. Ffigurau 2013-4 yw'r rhain, oddi wrth y prifysgolion eu hunain.

7. Lefel y rhaglen

Wrth ystyried gwendidau ar lefel y rhaglen, dadlennol yw troi'n ôl at bum egwyddor darpariaeth o safon a nodwyd gan Ymchwiliad BERA-RSA (2014) yn eu hadolygiadau helaeth ar y llenyddiaeth ymchwil ryngwladol. I ba raddau mae'r ddarpariaeth gyfredol yn cymharu'n ffafriol â'r meini prawf hyn?

7.1 Sicrhau bod rhaglenni AGA yn denu'r ymgeiswyr gorau a mwyaf addas i raglenni addysg athrawon

Mae Estyn (2012–3), Adroddiad Tabberer (2013) ac yn arbennig yr OECD (2014) i gyd yn codi cwestiynau a yw'r ddarpariaeth gyfredol mewn AGA yn denu ymgeiswyr o'r radd uchaf. Er bod Teach First yn gwneud cyfraniad derbyniol at wella'r ansawdd, mae'r niferoedd yn dal yn fach. Yn fwy cyffredinol, mae'n amlwg bod yna heriau gwahanol o ran gwella'r ansawdd ar gyfer y gwahanol lwybrau i mewn i addysgu.

Yr anhawster o ran y TAR yw sut i godi safonau mynediad mewn system sy'n cael ei sbarduno gan y farchnad, lle mae incwm prifysgolion yn dibynnu ar lenwi lleoedd a lle mae'n hawdd i fyfyrwyr symud i Loegr i ddilyn eu cyrsiau. Mae'n hawdd i ymgeiswyr galluog, a allai fel arall fod wedi ymrwymo i ddilyn eu haddysg athrawon yng Nghymru, ddewis cyrsiau mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig os oes cymhellion i wneud hynny neu os yw'r safonau mynediad yn is. Mae tystiolaeth UCET Cymru yn amlygu'r ffaith bod y cymhellion ariannol a gynigir i fyfyrwyr (sy'n cynnwys ysgoloriaethau a gynigir gan gymdeithasau pynciau blaenllaw fel y Sefydliad Ffiseg) yn fwy hael weithiau yn Lloegr nag yng Nghymru.[10] Mae arweinwyr cyrsiau'n awgrymu bod hyn yn amharu ar eu gallu i recriwtio ymgeiswyr o'r radd flaenaf. Mae yna wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr hefyd o ran gofynion mynediad. Yng Nghymru disgwylir bod gan bob ymgeisydd o leiaf 'B' mewn TGAU mewn Mathemateg a Saesneg; disgwylir bod gan ymgeiswyr cynradd radd 'C' o leiaf mewn Gwyddoniaeth hefyd. Mae'r gofynion hyn yn is yn Lloegr ar hyn o bryd. Ychydig yn unig a fyddai'n dadlau nad yw'r gofynion Cymreig yn ddymunol iawn, ond mae rhai cydweithwyr yn y sector yn awgrymu unwaith eto fod y ffaith bod y gofynion yn wahanol yn golygu bod rhai myfyrwyr galluog iawn yn cael eu colli o addysg athrawon yng Nghymru.

Ceir pryderon hefyd ar y lefel israddedig lle nad yw ansawdd yr ymgeiswyr mor uchel ag ansawdd llawer o raglenni proffesiynol tebyg.[11] Ceir cwestiynau hefyd ai'r llwybr

10. Er enghraifft, ar gyfer 2014-5 mae UCET Cymru'n dweud y byddai ymgeisydd TAR uwchradd â gradd 2.1 mewn Mathemateg £10,000 yn well ei fyd drwy astudio yn Lloegr; byddai ymgeisydd TAR uwchradd ieithoedd tramor modern â gradd 2.2 £12,000 yn well ei fyd yn Lloegr; a byddai arbenigydd mathemateg cynradd TAR â gradd 2.1 £11,000 yn well ei fyd yn Lloegr. Hefyd, mae detholiad o gymdeithasau pwnc yn cynnig ysgoloriaethau cystadleuol o £25,000 i rai graddedigion STEM sydd â lle ar raglen TAR yn Lloegr. Er hynny, dylid nodi nad yw'r cymariaethau hyn yn cymryd i ystyriaeth y Grant Ffioedd Dysgu nad oes rhaid ei ad-dalu (£5,315 yn 2014-15) ac sydd ar gael drwy drefniadau cyffredinol cymorth i fyfyrwyr i fyfyrwyr TAR cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

11. Ym Mangor, er enghraifft, y gofynion mynediad i'r rhai sy'n dechrau ar y BA Cynradd (Anrh) SAC yw 240 o bwyntiau er mai rhywle rhwng 280 a 320 o bwyntiau yw'r gofynion i'r rhai sy'n astudio ar gyfer gradd mewn Saesneg, Bioleg neu Seicoleg yn yr un brifysgol. 280 o bwyntiau yw gofynion mynediad Prifysgol De Cymru ar ger ei rhaglen BA Cynradd (Anrh) SAC er mai 300 o bwyntiau yw'r gofynion mynediad ar gyfer ei gradd Baglor mewn Nyrsio. Ar 260 o bwyntiau, mae gofynion mynediad gradd Astudiaethau Addysg ***heb*** SAC ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn uwch na gofynion Bangor a'r Drindod Dewi Sant ar gyfer graddau BA Cynradd (Anrh) SAC. Mae gofynion mynediad y radd Addysg heb SAC ym Mhrifysgol Caerdydd yn amrywio o 300 i 320.

israddedig tair-blynedd cyfredol yw'r cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer denu a chynhyrchu athrawon cynradd o'r radd flaenaf. Mae cyrsiau Gweriniaeth Iwerddon wrthi'n symud o dair blynedd i bedair, gyda golwg ar wella'u hansawdd. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd, ill dwy yn denu ymgeiswyr o ansawdd lawer gwell, mae'r radd eisoes yn para am bedair blynedd. O ganlyniad i Adroddiad Donaldson yn yr Alban (Donaldson 2011), mae graddau addysg israddedig yn eu ffurf draddodiadol yn dirwyn i ben, ac mae cyrsiau addysg israddedig yn cael eu hintegreiddio'n llawnach mewn disgyblaethau eraill yn y brifysgol. Mae hyn yn debyg o wella ansawdd y mewnlifiad eto yn ogystal â rhoi mwy o bwyslais ar addysg bersonol a phroffesiynol athrawon ysgol gynradd y dyfodol.

7.2 Cynnig dyfarniadau academaidd sy'n gystadleuol, sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sy'n cael eu hadeiladu ar sail ymchwil addysgol berthnasol

Fel y nodir yn Adroddiad Tabberer, ceir tystiolaeth glir yng Nghymru fod y cyrsiau'n canolbwyntio'n gryf ar ymarfer ac mae hyn yn gryfder pwysig yn y system gyfredol. Er hynny, ceir llawer iawn llai o dystiolaeth eu bod bob amser yn cael eu hadeiladu ar sail ymchwil addysgol berthnasol. Fel y mae Adroddiad BERA-RSA yn egluro, dylai ymchwil lywio rhaglenni addysg athrawon mewn sawl ffordd: yn yr wybodaeth sy'n sail i'r cynnwys, wrth ddylunio rhaglenni ac wrth baratoi darpar athrawon i fod yn ddefnyddwyr beirniadol ar ymchwil yn ogystal ag yn gyfranogwyr *mewn* ymchwil. O gofio nad oes cyfeiriad pendant o unrhyw fath at ymchwil yn y 'Safonau' cyfredol ac o gofio'r diffyg diwylliant ymchwil cadarn mewn addysg athrawon yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut gall y nodweddion hyn ar addysg athrawon o safon fod yn eu lle ar hyn o bryd.

7.3 Datblygu cysylltiadau cryf rhwng theori ac ymarfer, mewn ffordd sy'n helpu'r myfyrwyr i ddeall ac ystyried y cysylltiadau rhwng theorïau addysg ac arferion yr ystafell ddosbarth

Ceir tystiolaeth gref yn rhyngwladol fod yr egwyddor hon yn ganolog o ran sicrhau addysg athrawon o safon. Fel yr eglurir gan yr adroddiad diweddar ar addysg athrawon yng Ngogledd Iwerddon (DEL 2014) ac Ymchwiliad BERA-RSA, mae hyn yn golygu datblygu rhyw fath o 'ymarfer clinigol' yn yr ysgolion. Mewn modelau addysg athrawon sy'n defnyddio ymarfer clinigol, mae'r ysgolion eu hunain yn chwarae rhan flaenllaw mewn agweddau allweddol ar yr hyfforddiant a gynigir. Maen nhw'n mentora'n ofalus ac yn datblygu profiadau addysgu'r myfyrwyr yn raddol. Ond yn ychwanegol, mae'r rhaglenni hyn yn rhoi cyfleoedd fel rhan o'r drefn i'r darpar athrawon gyplysu'r profiad ymarferol y maen nhw'n ei ddatblygu yn yr ysgol â mathau eraill o wybodaeth broffesiynol – sef ag ymchwil, â theori ac â gwybodaeth o ymarfer mewn cyd-destunau eraill. Drwy ddod â'r mathau gwahanol hyn o wybodaeth broffesiynol at ei gilydd y mae'r myfyrwyr yn cael eu hannog i fyfyrio, dadansoddi a herio'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu yn eu gwaith ymarferol. Ond os bwriedir i'r ysgolion a'r prifysgolion gydweithio'n agos i ddatblygu modelau ymarfer clinigol, yna mae hynny'n galw am gysyniad gwahanol iawn o 'bartneriaeth' i'r model sydd i'w weld yn y rhan fwyaf o Gymru ar hyn o bryd.

Mae'n ymddangos ar hyn o bryd mai rhan fach yn unig sydd gan yr ysgolion mewn addysg broffesiynol, a hynny â nifer fach iawn o fyfyrwyr yn aml. Ar sail wirfoddol yn bennaf yr ymgymerir ag addysg athrawon – fel ychwanegiad at waith arferol yr ysgolion. Yn rhyngwladol, fodd bynnag, mae yna dystiolaeth gref bod y prifysgolion yn y systemau

mwyaf effeithiol yn cydweithio â niferoedd llawer llai o ysgolion, sy'n derbyn niferoedd llawer mwy o fyfyrwyr. Ar ben hynny, mae'r ysgolion eu hunain yn cael eu hannog i gymryd y prif gyfrifoldeb dros agweddau allweddol ar y rhaglen hyfforddi.

Un anhawster penodol wrth annog ysgolion i weithio mewn partneriaeth agosach â phrifysgolion yn rheolaidd yw mai partneriaeth wirfoddol yw hon. Gan hynny, clywir yn aml mai ychydig yn unig o ysgolion sy'n fodlon rhoi ymrwymiad dros gyfnod hir, gan dynnu'n ôl, weithiau ar y funud olaf, yn enwedig os oes arolygiad gan Estyn yn eu hwynebu. Yr hyn y mae ei angen, felly, yw i gyfraniad ysgolion at addysg gychwynnol athrawon gael ei gydnabod yn llawer mwy cyhoeddus. Dylai cyfraniad systemataidd a chyson at addysg athrawon fod yn un ffordd o ddangos bod ysgol yn ysgol dda, neu'n ymdrechu i fod yn un dda.

7.4 Sefydlu cysylltiadau cryf rhwng addysg gychwynnol athrawon a datblygu proffesiynol parhaus i athrawon yn yr ysgolion

Mae'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA) wedi bod yn ddatblygiad arwyddocaol yng Nghymru o ran cynnig cysylltiad pwysig rhwng addysg gychwynnol athrawon a datblygu proffesiynol cynnar. Bellach mae gan fframwaith y radd meistr newydd arfaethedig a'r Fargen Newydd yn fwy cyffredinol y potensial i sicrhau y gall gwaith dysgu proffesiynol athrawon gael ei gefnogi mewn modd systemataidd gydol eu gyrfa. Serch hynny, er bod y rhain yn ddatblygiadau cadarnhaol iawn, does dim cysylltiad systemataidd ar hyn o bryd rhwng y rhai sy'n gyfrifol am DPP, y Consortia newydd, a chanolfannau addysg athrawon Cymru yn y prifysgolion. Mae'r staff yng nghyfadrannau'r prifysgolion ac yn yr adrannau addysg yn adnodd pwysig er mwyn datblygu'r gweithlu addysgu yng Nghymru mewn ffordd fwy cynaliadwy ac ar hyn o bryd mae cryn le i ddefnyddio rhagor ar yr adnodd. Efallai fod hyn yn deillio o ddiffyg cydlynu systemataidd a diffyg arweinyddiaeth yn y sector yn ei gyfanrwydd.

7.5 Sicrhau bod yr holl egwyddorion uchod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth glir o dystiolaeth am sut mae darpar athrawon yn dysgu addysgu a bod y cyrsiau eu hunain yn destun gwaith ymchwilio a datblygu drwy'r amser

Fel yr eglurir yn adroddiadau BERA-RSA a Gogledd Iwerddon (DEL 2014), mae llawer yn hysbys am egwyddorion gwaith dysgu proffesiynol effeithiol a hynny mewn addysg gychwynnol i athrawon ac mewn DPP. Mae'r mathau mwyaf effeithiol o ddarpariaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddylunio'u rhaglenni ac wrth roi'r rhaglenni hynny ar waith, ac maen nhw'n gwneud gwaith ymchwil barhaus ynglŷn â'u gwaith eu hunain, er mwyn ei ddatblygu ymhellach. Serch hynny, fel yr eglurir yn Adroddiad Tabberer, does dim llawer o dystiolaeth ar hyn o bryd fod y ddarpariaeth wedi'i seilio ar ymagwedd o'r fath. Efallai fod hyn i'w briodoli'n rhannol i'r set gyfredol o 'Safonau' cul eu cysyniad sydd, ar y cyd ag arolygiadau Estyn, yn llywodraethu'r system. Er bod arolygiadau Estyn yn bwysig iawn, mae yna lawer mwy mewn addysg broffesiynol o dan arweiniad y prifysgolion nag a welir mewn proses arolygu. Mae'n wir hefyd fod y cyrsiau gorau eu hunain yn destun gwaith ymchwilio ac adolygu parhaus. Er bod yna dystiolaeth bellach bod darparwyr yn datblygu ac yn rhannu rhagor o fathau o ddata i fonitro'u gwaith, nid yw hynny yr un fath o reidrwydd ag arddel ymagwedd sydd wedi'i seilio ar ymchwil lle ceir cysylltiad clir â llenyddiaeth ar addysg broffesiynol, yn ogystal â chysylltiadau ag arferion rhagorol mewn mannau eraill.

8. Casgliad

Os bwriedir i Gymru ateb her addysgu ei phlant yn effeithiol ar gyfer yr 21ain ganrif, yna mae gan addysg gychwynnol athrawon o safon ran hanfodol bwysig i'w chwarae. Yr hyn sy'n glir ar sail y drafodaeth uchod yw nad yw'r system bresennol yn cyflawni ei gwaith yn effeithiol, a hynny ar ystod eang o fesurau gwahanol. Mae yna dystiolaeth ei bod yn syrthio'n brin iawn o'r arferion gorau sy'n hysbys mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Ar ben hynny, bydd y newidiadau yn y cwricwlwm ac mewn asesu sy'n cael eu harddel gan Adolygiad Donaldson yn codi'r safon yn sylweddol o ran yr hyn yr ydyn ni'n ei ddisgwyl oddi wrth ein hathrawon. Yn y dyfodol, bydd ar Gymru angen math gwahanol o athro ac athrawes broffesiynol; un sy'n ysgwyddo cryn dipyn yn fwy o gyfrifoldeb, un sy'n deall dulliau addysgu a'r rhesymau drostyn nhw yn ogystal â chynnwys yr addysgu. Mae i'r dyheadau hyn oblygiadau pwysig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ac ar gyfer DPP. Mae'r achos o blaid newid felly yn ddiymwad.

Mae angen newid ar bob un o'r tair lefel yn y system addysg gychwynnol athrawon – y lefel genedlaethol, lefel y sefydliad a lefel y rhaglen. Bydd llawer o'r cyfrifoldeb dros y newidiadau angenrheidiol y tu allan i faes uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Yn y prifysgolion, ar eu lefel ganolog ac ar lefel eu rhaglenni, ac yn arferion yr ysgolion y mae angen gweld newid. Ond yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud yw sefydlu'r strwythurau priodol a fydd yn ategu'r newidiadau angenrheidiol. Y newidiadau strwythurol hyn sydd o dan sylw yn yr opsiynau a amlinellir yn rhan nesaf yr Adroddiad hwn.

ADRAN B

Addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru – opsiynau ar gyfer newid

Cyflwyniad

Mae i'r opsiynau ynglŷn â newid y strwythurau sy'n llywodraethu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru sawl ffurf wahanol. Mae'r ddau newid mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag ailddrafftio'r 'Safonau' ynglŷn â statws athro cymwysedig. Fel y nodwyd eisoes, mae gan y Safonau hyn ran hanfodol bwysig i'w chwarae wrth lunio'r ddarpariaeth. Yr ail argymhelliad, sy'n gysylltiedig â hyn, yw y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'i gweithdrefnau ynglŷn ag achredu darparwyr addysg athrawon. Ar y cyd â set newydd a mwy priodol o Safonau, bydd ailachredu yn caniatáu cyfle i ystyried ystod o ffactorau gwahanol sy'n bwysig o ran gwella ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys cynnwys y cyrsiau, cyfraniad yr ysgolion, ansawdd y darparwyr ac, yn anuniongyrchol, arweinyddiaeth y system drwyddi draw. Serch hynny, mae ailachredu hefyd yn codi nifer o gwestiynau allweddol eraill megis: pa beth y dylai'r broses achredu ei gynnwys; pa gorff a ddylai gynnal y broses achredu; sawl sefydliad a ddylai gael eu hachredu i ddarparu addysg gychwynnol athrawon; a sut byddai ailachredu'n effeithio ar rôl Estyn yn y dyfodol?

Ar ben y ddau fesur allweddol hyn, mae yna opsiynau penodol eraill y mae angen eu hystyried o ran y canlynol: gofynion mynediad a chymhellion ariannol i ddarpar athrawon; dyfodol y llwybr israddedig i mewn i addysgu – y radd BA (SAC); capasiti ymchwil; a'r cysylltiadau rhwng addysg gychwynnol athrawon a datblygu proffesiynol pellach. Ym mhob achos mae angen i'r opsiynau isod gael eu cloriannu yn nhermau eu cyfraniad posibl at wella ansawdd y system, eu gwerth am arian a pha mor 'gyflawnadwy' ydyn nhw.

9. Opsiynau ynglŷn ag achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn y dyfodol

Ar hyn o bryd, o dan Reoliad 7 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, mae'n ofynnol i holl ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru geisio achrediad gan CCAUC. Mae i'r broses achredu nifer o ddimensiynau gwahanol. Mae'r fframwaith bras yn cael ei sefydlu drwy gyfrwng meini prawf a nodir gan Weinidogion Cymru o dro i dro. Mae'r meini prawf hyn yn ymdrin yn fyr ag ystod o faterion gwahanol megis gofynion mynediad, partneriaethau ag ysgolion a sicrhau ansawdd. O ran cynnwys y rhaglenni, ceir cyfeiriad pendant at yr angen i'r darparwyr 'gynllunio cynnwys, strwythur a darpariaeth hyfforddiant i alluogi hyfforddeion i ddangos bod ganddynt Safonau SAC'.[12] Y brif dystiolaeth a ddefnyddir gan CCAUC wrth asesu a yw'r darparwyr wedi bodloni'r meini prawf penodedig mewn gwirionedd yw adroddiadau Estyn ar eu harolygiadau o'r darparwyr o dro i dro. Yma hefyd mae gan y safonau SAC ran ganolog i'w chwarae. Mewn geiriau eraill, yn y trefniadau achredu cyfredol, mae Safonau SAC yn chware rôl ganolog, os nad y rôl ddiffiniol.

Fel y nodwyd yn 5.3, mae Safonau SAC presennol Cymru, fel safonau Lloegr, yn cael eu cyfleu'n bennaf fel set o gymwyseddau. Fel y nodir yn y Llawlyfr Canllawiau ar Safonau SAC, 'Datganiadau o ganlyniadau yw'r Safonau SAC sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i hyfforddeion ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud ar ddiwedd cwrs HCA er mwyn ennill SAC'. Ac mae'r hyn y pennir ran amlaf y dylen nhw 'ei wybod a'i wneud' yn ymwneud ag ystod o gyfarwyddydau a dogfennau cynghori sydd wedi'u pennu gan y llywodraeth. Fel y nodwyd hefyd, mae'n arwyddocaol bod cysyniad y Safonau wedi'i gyfleu fel set o gymwyseddau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain. Yn wahanol i safonau'r Alban neu Weriniaeth Iwerddon,[13] does dim cysyniad ynddyn nhw i awgrymu eu bod yn rhan o ddatblygu proffesiynol gydol oes.

O gofio bod y Safonau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru wedi'u seilio ar gymwyseddau mewn modd mor gul ac o gofio nad oes cysylltiad eglur rhyngddyn nhw a gwaith dysgu proffesiynol athrawon yn y dyfodol, mae hyn yn codi'r cwestiwn a ydyn nhw, yn eu ffurf gyfredol, yn briodol mewn gwirionedd fel y prif sbardun o ran achredu sefydliadau. Yn sicr o'u hystyried mewn perthynas â'r weledigaeth o broffesiynoldeb athrawon a ragwelir gan Adolygiad Donaldson (2015) neu o'u cymharu â'r arferion mewn awdurdodaethau eraill, maen nhw'n ymddangos yn rhy gyfyng.

Yn yr Alban er enghraifft, mae Safonau Cofrestru Cychwynnol Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTCS 2012), sydd hefyd yn cael eu defnyddio mewn prosesau achredu, yn

12. Gofyniad G2.1 yn y Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2014 (2014 Rhif 1)

13. GTCS (2012) The Standards for Registration: mandatory requirements for Registration with the General Teaching Council for Scotland Caeredin: GTCS www.gtcs.org.uk/standards/standards.aspx. Y Cyngor Addysgu (Iwerddon) 2011) Initial Teacher Education: Criteria and Guidelines for Programme Providers www.teachingcouncil.ie/publications.157.html

cydnabod yn bendant fod addysgu'n weithgaredd proffesiynol cymhleth, sy'n galw am sgiliau, gwybodaeth a barn broffesiynol ar lefel uchel, y mae'n rhaid i bob un ohonyn nhw gael eu meithrin drwy gydol gyrfa broffesiynol yr athrawon. Ceir pwyslais cryf hefyd ar wybodaeth a dealltwriaeth sy'n deillio o sawl ffynhonnell megis ymchwil a theori, yn ogystal ag ymdrin â'r hyn y dylai myfyrwyr ei 'wybod a'i wneud'. Cysyniad datblygiadol sydd i'r Safonau hyn: ceir cysylltiad pendant a chlir rhwng y Safonau y mae angen i ddarpar athrawon fod wedi'u sicrhau erbyn diwedd eu hyfforddiant a'r rhai y mae eu hangen ar ddiwedd eu cyfnod prawf, pan fyddan nhw'n ymgeisio am gofrestru'n llawn gyda'r GTCS.[14] Yn fras felly, mae Safonau'r Alban ar gyfer Cofrestru Cychwynnol yn nodi cwricwlwm datblygiadol ar gyfer cyfraniad y brifysgol, yn ogystal â chyfraniad yr ysgol, at addysg gychwynnol athrawon. Y safonau hyn sy'n cael eu defnyddio wedyn yn sail ar gyfer achredu sefydliadau.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae'r broses achredu'n mynd ymhellach. Mae Meini Prawf a Chanllawiau'r Cyngor Addysgu i Ddarparwyr Rhaglenni (Y Cyngor Addysgu 2011) nid yn unig yn rhoi amlinelliad bras o gynnwys cyrsiau, mae hefyd yn nodi meini prawf ar gyfer asesu ansawdd y darparwyr eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion ynglŷn â'r staff. Er enghraifft, rhaid i'r holl staff yn y prifysgolion fod yn weithredol mewn ymchwil; dylai fod ganddyn nhw gymwysterau sydd o leiaf un lefel un uwch na'r rhai y maen nhw'n eu haddysgu; ni ddylai cymarebau staff:myfyrwyr ar raglenni addysg athrawon fod yn fwy na 1:15.

Yr hyn sy'n cael ei awgrymu yn y dystiolaeth o wledydd eraill yw bod cryn botensial i fynd i'r afael â rhai o ddiffygion presennol y ddarpariaeth addysg athrawon yng Nghymru, pe bai'r gweithdrefnau achredu a'r safonau SAC sy'n sail iddyn nhw yn cael eu diwygio.

Mae hyn yn arwain wedyn at ystod o opsiynau posibl:

Opsiwn 9.1 Y status quo. Ailachredu gan ddefnyddio gwybodaeth o arolygiadau Estyn o'i chymharu â'r Safonau cyfredol

Os bydd y Llywodraeth yn cytuno bod angen ailachredu, yna y ffordd gyflymaf i wneud hynny fyddai defnyddio'r gweithdrefnau presennol. Er hynny, nid yw'n debyg y byddai hynny'n sicrhau arferion da fel y mae'r rheiny wedi'u diffinio yn y llenyddiaeth ryngwladol; nid yw gweithdrefnau achredu Cymru wedi gwneud hynny yn y gorffennol ac mae'n ymddangos yn debyg felly na fydden nhw'n gwneud hynny yn y dyfodol.

Opsiwn 9.2 Ailachredu â set ddiwygiedig o safonau datblygiadol, gan gynnwys cwricwlwm wedi'i bennu'n fras, fel yn yr Alban

Mae'n sicr y byddai rhyw gyfeiriad at gwricwlwm bras i'w drin a'i drafod yn y prifysgolion ac yn yr ysgolion yn ddatblygiad gwerthfawr; yn wir byddai'n hanfodol os bwriedir gwireddu dyheadau Adolygiad Donaldson (2015). Byddai ymagwedd o'r fath yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad gwahanol ond cydategol y ddau gyd-destun ar gyfer addysg broffesiynol. Byddai'n fanteisiol hefyd pe bai'r safonau sy'n sail i'r broses asesu'n cael eu seilio ar gysyniad datblygiadol, gyda chysylltiadau clir â'r cyfnod prawf a datblygu proffesiynol cynnar. Wedyn ceid cysylltiad mwy priodol rhwng

14. Mae ymagwedd ddatblygiadol debyg yn cael ei harddel mewn safonau cenedlaethol eraill, er enghraifft safonau Awstralia – gweler Troednodyn 3

addysg gychwynnol athrawon a'r rhaglen Meistr newydd arfaethedig yng Nghymru nag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Byddai set ddatblygiadol o safonau hefyd yn hybu mwy o gydweithredu nag ar hyn o bryd rhwng darparwyr gwahanol – prifysgolion, Consortia a darparwyr graddau Meistr megis y radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA).

Opsiwn 9.3 Ailachredu fel yn 9.2 ond â meini prawf diwygiedig, gan gynnwys safonau gofynnol i ddarparwyr, fel yng Ngweriniaeth Iwerddon

O gofio mai diffyg buddsoddiad y prifysgolion yn eu hadrannau a'u cyfadrannau addysg yw un o'r prif wendidau yn y ddarpariaeth gyfredol a amlinellwyd yn Adran A, yna fe allai pennu set o safonau gofynnol i ddarparwyr chwarae rhan bwysig wrth wella ansawdd. Dim ond os bydd addysg athrawon yn denu staff o safon a chanddyn nhw'r cymwysterau proffesiynol ac academaidd priodol a dim ond, ar ôl eu penodi, os cân nhw'r cymorth cywir gan eu prifysgolion o ran eu contractau cyflogaeth a'r cyfleoedd i ddatblygu fel ymchwilwyr gweithredol eu hunain, y gallwn ddisgwyl gweld y system yn gwella.

Opsiwn 9.4 Ailachredu fel yn 9.3 ond â set ddiwygiedig o safonau, gan gynnwys safonau gofynnol ar gyfer partneriaethau ag ysgolion

Un o wendidau mawr y rhan fwyaf o'r addysg athrawon yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon yw bod cyfraniad yr ysgolion heb ei ddatblygu'n ddigonol, ac eithrio mewn nifer fach o achosion. Fel yr eglurodd Ymchwiliad BERA-RSA (2014), datblygu 'ymarfer clinigol sydd wedi'i lywio gan ymchwil' yw prif nodwedd y rhaglenni addysg athrawon gorau un yn rhyngwladol. Serch hynny, mae hyn yn galw am fath gwahanol iawn o 'bartneriaeth' i'r un a welir yn y rhan fwyaf o Gymru ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i'r ysgolion eu hunain gael rhan flaenllaw i'w chwarae mewn rhannau allweddol o'r rhaglenni, yn yr ystyr bod rhaid iddyn nhw arddel ymagwedd ysgol-gyfan at addysg broffesiynol a bod rhaid iddyn nhw weithio mewn cydweithrediad agos â'u partneriaid yn y brifysgol. Hefyd, mae'n rhaid i raglenni ddatblygu ffyrdd systemataidd o integreiddio'r hyn y mae'r darpar athrawon yn ei ddysgu yn yr ysgol â'r mathau eraill o wybodaeth broffesiynol y maen nhw'n eu codi drwy eu prifysgolion. Er bod y mwyafrif o feini prawf achredu, gan gynnwys meini prawf Cymru, yn pennu'n fras fod rhaid i raglenni addysg athrawon gael eu seilio ar egwyddorion partneriaeth ag ysgolion, yn rhy aml nid yw'r dyhead yn cael ei wireddu'n ymarferol. Gallai set ddiwygiedig o feini prawf achredu a fyddai'n canolbwyntio'n fanwl ar natur y bartneriaeth rhwng prifysgolion ac ysgolion ac a fyddai'n rhoi'r prif gyfrifoldeb dros agweddau allweddol ar raglenni AGA i'r ysgolion, roi cyfle i Gymru ddyfeisio arferion mwy cyson ac effeithiol nag sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

ARGYMHELLIAD 1. Y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Safonau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn unol â'r egwyddorion a bennwyd yn Opsiwn 9.4, a hynny fel mater o flaenoriaeth

ARGYMHELLIAD 2. Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu proses achredu ddiwygiedig i ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon fel y'i disgrifiwyd yn Opsiwn 9.4

10. Opsiynau ynglŷn â chorff achrededig yn y dyfodol

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy'n achredu darparwyr addysg gychwynnol athrawon ar ran Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, proses 'untro' yw achredu – pan fydd darparwyr wedi'u hachredu, maen nhw'n cadw'r achrediad oni bai bod Estyn yn dangos tystiolaeth nad yw darparwr penodol yn cydymffurfio â'r gofynion mwyach. O dan yr amgylchiadau hynny, mae yna weithdrefnau gosod i fynd i'r afael â 'diffyg cydymffurfio', gan gynnwys y posibilrwydd o dynnu'r achrediad yn ôl. Fel y nodwyd uchod, gweithdrefnau ar bapur yn bennaf yw'r gweithdrefnau cyfredol. Mae'n ofynnol i ddarparwr posibl newydd gyflwyno cynnig 15-tudalen yn amlinellu'r ddarpariaeth o dan set o benawdau safonol megis 'recriwtio hyfforddeion', 'sicrhau ansawdd a chydymffurfio' a 'rheolaeth ariannol'. Mae'r cynnig yn cael ei adolygu wedyn gan banel achredu, o dan gadeiryddiaeth aelod o Gyngor CCAUC. Mae aelodau paneli'n cael eu dewis ar y sail bod ganddyn nhw arbenigedd priodol.

Mae sawl nodwedd benodol i'w nodi ynglŷn â'r gweithdrefnau cyfredol. Yn gyntaf, mae'n drefn gymharol 'ysgafn'; oni bai bod yna dystiolaeth gref oddi wrth Estyn nad yw darparwr penodol yn cydymffurfio, mae'r achrediad yn parhau. Yn ail, mae'r achredu'n cael ei wneud gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch ei hun, yn hytrach na chan gorff sydd ag arbenigedd penodol mewn addysg athrawon. O ganlyniad, mae parhau ag achrediad yn dibynnu'n fawr ar farn broffesiynol Estyn ac Estyn yn unig. Yn olaf, does dim cynrychiolaeth ffurfiol yn y broses i addysgwyr athrawon presennol, nac i'r proffesiwn addysgu, er y gall unigolion fod yn rhan o'r Panel Adolygu, wrth gwrs.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n cytuno i sefydlu set fwy cadarn o brosesau achredu o'r math a amlinellwyd uchod, yna mae'n anochel y bydd proses achredu darparwyr yn dasg fwy ymestynnol nag ar hyn o bryd. Bydd datblygu a chynnal set newydd a manylach o feini prawf yn llyncu amser. Hefyd, os bydd yr ailachredu'n digwydd, fel mewn awdurdodaethau eraill, bob hyn a hyn (bob pump neu chwe blynedd, dyweder) ac os bwriedir iddo gynnwys, fel mewn llawer o feysydd proffesiynol eraill, mwy nag ymarferiad ar bapur (gan gynnwys o bosibl ymweliadau â safleoedd a/neu gyfarfodydd panel) yna unwaith eto bydd yn broses gryn dipyn yn fwy ymestynnol nag ar hyn o bryd. Mae'n anochel wedyn y bydd angen ailystyried rhywfaint o'r broses achredu ac yn arbennig y corff achredu. Unwaith eto, ceir sawl opsiwn ond wrth ddewis rhyngddyn nhw mae'n bwysig cydnabod bod y cyrff achredu mewn awdurdodaethau eraill wedi'u cyfuno â sefydliadau blaenllaw eraill yn y maes proffesiynol ei hun.

Fel y nodwyd yn Rhan A o'r adroddiad hwn, un o'r anawsterau presennol yng Nghymru yw nad oes corff arweiniol ym maes addysg gychwynnol athrawon; gan hynny mae cydlynu ar y lefel genedlaethol yn aml yn peri problem. Wrth ddewis corff achredu priodol, fe ddylai'r llywodraeth ystyried, felly, a allai'r corff hwnnw fynd ati dros amser i ysgwyddo'r rôl arwain strategol ehangach hon hefyd.

Opsiwn 10.1 CCAUC yn parhau i weithredu fel y corff achredu

Mae'n amlwg y byddai yna fanteision o ran parhad pe bai CCAUC ei hun yn ymgymryd â rôl ehangach newydd yn y broses achredu, ond ni fyddai'n gallu gwneud hynny o fewn yr adnoddau cyfredol sydd ganddo. Gallai'r adnoddau hynny gael eu hymestyn, ond mae'n dal yn amheus a ddylai sefydliad generig fel CCAUC, sydd â llawer o gyfrifoldebau cenedlaethol gwahanol, fynd yn gorff arweiniol hefyd mewn maes proffesiynol penodol iawn megis addysg gychwynnol athrawon.

Opsiwn 10.2 Llywodraeth Cymru ei hun yn gweithredu fel y corff achredu

Fe fyddai rhai manteision pe bai'r broses achredu yn cael ei chyflawni gan Lywodraeth Cymru ei hun. O ran adnoddau, gallai fod yn fwy effeithlon; o ran egwyddor byddai'n haws sicrhau bod yna gydlynu ar y lefel polisi. Serch hynny, efallai y byddai model o'r fath yn dod ag addysg athrawon yn rhy agos at y llywodraeth. Fel yn Lloegr, fe allai gael ei gweld fel proses wleidyddol ac fe ellid barnu bod y Llywodraeth ei hun yn uniongyrchol gyfrifol am unrhyw wendidau yn y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Opsiwn 10.3 Sefydlu 'Bwrdd Achredu Addysg Athrawon' newydd ac annibynnol

Unwaith eto, byddai hyn yn dod â rhai manteision allweddol. Gallai'r Bwrdd gynnwys cynrychiolwyr o blith ystod eang o randdeiliaid (y proffesiwn addysgu, addysg uwch, mudiadau rhieni, Estyn a CCAUC); gan hynny fe fyddai'n gweithio mewn modd priodol 'hyd braich' o'r Llywodraeth. Ar sail aelodaeth briodol, byddai Bwrdd o'r fath mewn sefyllfa dda hefyd i ymgymryd â rôl arwain ar gyfer addysg athrawon yn ei chyfanrwydd. Anfantais yr opsiwn hwn yw y byddai'n anochel yn fwy costus na'r opsiynau eraill sydd wedi'u cynnig. Byddai hefyd yn un corff ychwanegol arall eto i'r Llywodraeth ac Addysg Uwch ymwneud ag ef; mewn rhai pethau felly fe allai olygu bod gwaith cydlynu'r sector yn anos ac nid yn haws.

Opsiwn 10.4 Sefydlu 'Bwrdd Achredu Addysg Athrawon' o fewn Cyngor y Gweithlu Addysg

Dyma'r opsiwn sydd wedi'i fabwysiadu yn yr Alban ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, lle mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n dda. Fel is-bwyllgor i'r Cyngor, gallai'r Bwrdd gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r proffesiwn addysgu ei hun. Byddai mewn safle da hefyd y roi arweinyddiaeth a chydlynedd ar gyfer addysg athrawon ar y lefel genedlaethol, a sefyll hyd braich i ffwrdd o'r Llywodraeth yr un pryd. Wrth gymryd cyfrifoldeb dros achredu darparwyr addysg athrawon, byddai'r Cyngor hefyd yn ei gysoni ei hun â rôl llawer o gyrff proffesiynol eraill; byddai hefyd yn anfon neges gref bod y proffesiwn addysgu ei hun yn chwarae rhan flaenllaw yn ei addysg broffesiynol ei hun.

ARGYMHELLIAD 3: Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 'Bwrdd Achredu Addysg Athrawon' o fewn Cyngor y Gweithlu Addysg – opsiwn 10.4

11. Rôl Estyn yn y dyfodol

Mae Estyn yn creu effaith fawr ar addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru mewn dwy ffordd wahanol ar hyn o bryd. Yn gyntaf mae'n creu effaith uniongyrchol drwy arolygu'r ddarpariaeth; yn ail mae'n creu effaith anuniongyrchol drwy arolygu ysgolion. Os caiff proses ailachredu ddiwygiedig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ei sefydlu yng Nghymru, yn unol â'r argymhelliad uchod, yna mae'n anochel y bydd hyn yn codi cwestiynau am rôl Estyn yn y dyfodol o ran arolygu'r sector. Ar hyn o bryd mae Estyn yn chwarae rhan hanfodol wrth fonitro ansawdd o'i chymharu â'r Safonau penodedig. Ond, mewn llawer o broffesiynau eraill lle ceir gweithdrefnau achredu cadarn, nid yw arolygiadau statudol o'r math a ddarperir gan Estyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol fel rheol. Yn wir, pe bai Estyn yn parhau i arolygu addysg gychwynnol athrawon yn ei ffordd bresennol, fe ellid dadlau y gallai hynny danseilio awdurdod y corff proffesiynol ei hun i reoleiddio'i brosesau hyfforddi a chofrestru ei hun. Ceir sawl opsiwn posibl o ran rôl Estyn yn y dyfodol mewn addysg gychwynnol athrawon. Er enghraifft, fe allen nhw barhau fel ar hyn o bryd, gan fonitro ansawdd o'i chymharu â set ddiwygiedig o safonau. Fel arall, fe allen nhw ymgymryd â mwy o rôl gwella ansawdd; canolbwyntio'n fwy penodol ar ansawdd athrawon sydd newydd gymhwyso; cynnal adolygiadau thematig ar bynciau fel llythrennedd a rhifedd ar draws y sector AGA. Does dim argymhellion penodol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd ynghylch rôl Estyn yn y dyfodol fel arolygydd addysg gychwynnol athrawon. Serch hynny, mae'n eglur y bydd rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn pan fydd proses achredu ddiwygiedig wedi'i sefydlu'n llawn.

Ond mae Estyn yn arwyddocaol hefyd ar gyfer addysg gychwynnol athrawon mewn modd anuniongyrchol, drwy arolygu ysgolion. Mae argymhelliad 9.4 uchod yn rhag-weld rôl gryn dipyn yn gryfach i'r ysgolion yn narpariaeth AGA yng Nghymru yn y dyfodol; bydd hyn yn ffactor allweddol i godi safon y ddarpariaeth. Er hynny, fel y nodwyd yn 7.3 uchod, ar hyn o bryd, rhan fach yn unig sy'n cael ei chwarae mewn addysg gychwynnol athrawon gan y mwyafrif o ysgolion Cymru. Mae'n ymddangos eu bod yn aml yn anfodlon gwneud ymrwymiad sylweddol at y tymor hir; gwelir eu rôl mewn addysg gychwynnol athrawon fel un wirfoddol nad yw'n cael ei chydnabod i raddau helaeth gan y system addysg, gan gynnwys Estyn. Yn wir, clywir yn helaeth fod rhai ysgolion yn anfodlon derbyn myfyrwyr ar leoliad o gwbl os ydyn nhw'n wynebu arolygiad gan Estyn.

O gofio arwyddocâd Estyn ym mywyd ysgolion Cymru, mae'n ymddangos ei bod yn hollbwysig sicrhau bod y broses arolygu'n mynd ati'n bendant i werthfawrogi cyfraniad yr ysgolion at addysg gychwynnol athrawon. Byddai gwneud hynny'n un ffordd i sicrhau bod cyfraniad yr ysgolion yn cael ei werthfawrogi'n well a'i fod yn fwy sicr. Byddai'n gymharol hawdd cyflawni hyn pe ceid cyfeiriad pendant at gyfraniad yr ysgolion at AGA yng 'Nghanllawiau Arolygu' Estyn.

ARGYMHELLIAD 4: Y dylai rôl Estyn mewn addysg gychwynnol athrawon gael ei hadolygu pan fydd proses achredu ddiwygiedig wedi'i sefydlu'n llawn

ARGYMHELLIAD 5: Y dylai 'Canllawiau Arolygu' Estyn ar gyfer ysgolion gael eu diwygio i gynnwys cydnabyddiaeth bendant i gyfraniad ysgol at addysg gychwynnol athrawon

12. Opsiynau ynglŷn â dyfodol y radd BA Cynradd (Anrh) SAC (y BEd)

Mae llawer o systemau addysg athrawon ledled y byd yn dal i gynnig llwybrau israddedig ac ôl-raddedig i mewn i addysgu. Cafodd y radd BEd ei datblygu'n wreiddiol ar sail Tystysgrif Athrawon y cyfnod ar ôl y rhyfel, rhwng 1970 a'r 1990au, a daeth yn brif lwybr i mewn i addysgu gyda'r TAR ôl-raddedig yn llwybr i'r lleiafrif. Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae'r sefyllfa wedi'i throi ar ei phen ac yng Nghymru, yr un modd ag ar draws y Deyrnas Unedig, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n dilyn y llwybr israddedig. Er hynny, mewn addysg gynradd ac mewn meysydd uwchradd allweddol lle ceir prinderau, megis technoleg, mae'r llwybr israddedig yn dal yn chwarae rhan bwysig o ran y cyflenwad athrawon, hyd yn oed os yw'r rhan honno wedi lleihau'n sylweddol. Er hynny, mae Cymru'n wahanol i'r arferion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon mewn un ffordd allweddol, yn yr ystyr mai fel rhaglen tair-blynedd yn unig y mae'r radd BA Cynradd (Anrh) SAC ar gael. Yn Lloegr ceir rhaglenni tair-blynedd a rhaglenni pedair-blynedd; yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, mae pob llwybr israddedig i mewn i addysg yn para pedair blynedd.

Mae'r ffaith bod gan y rhai sy'n dilyn y llwybr israddedig i mewn i addysgu cynradd flwyddyn yn llai o addysg uwch i bob pwrpas na'r rhai sy'n dilyn llwybrau olynol (cymhwyster israddedig + TAR) yn achos pryder yng Nghymru, neu fe ddylai fod. Mewn cwta tair blynedd, mae'n rhaid i fyfyrwyr israddedig gael addysg bersonol a phroffesiynol, yn ogystal â hyfforddiant a phrofiad ymarferol mewn ysgolion. Mae hyn yn gryn her i'r myfyrwyr eu hunain ac i'r rhai sy'n gyfrifol am ddylunio ac addysgu'r rhaglenni. Mae'n debyg o fod yn fwy o her byth os caiff argymhellion Adroddiad Donaldson eu derbyn yn llawn. Mae'n anochel bod yr amser byr sydd ar gael ar hyn o bryd yn golygu bod rhaglenni i israddedigion yn agored i gwestiynau ynghylch eu hansawdd. Mae yna gwestiynau hefyd am ansawdd y myfyrwyr yn y mewnlifiad. Fel y nodwyd eisoes, yng Nghymru, mae ansawdd y mewnlifiad i raddau BA Cynradd (Anrh) SAC yn amrywio ond mae'n is yn gyffredinol na llawer o raddau tebyg; mewn rhai achosion, mae'r lefelau mynediad i raddau addysg sydd heb SAC yn uwch na graddau sy'n cynnwys y statws hwnnw.

Yn ddiweddar, mae Adolygiad Donaldson (2011) o addysg athrawon yn yr Alban wedi codi'r cwestiwn a yw strwythur graddau addysg israddedig yn briodol, hyd yn oed pan fo'r rhaglenni'n para pedair blynedd. Mae Donaldson yn dadlau nad yw israddedigion Addysg, sy'n cael eu haddysgu gan gyfadrannau Addysg yn unig, wedi manteisio i'r eithaf ar gael eu hintegreiddio mewn prifysgolion. Y canlyniad, meddai, yw nad yw addysg bersonol y myfyrwyr yn cael ei datblygu gymaint ag y gallai.

> 'Initial teacher education has already undergone significant change over the last decade .... Mergers between former colleges of education and universities were designed to help raise the status of the profession and to allow future teachers

to benefit from the wider academic and research culture of a university. Those aims have at best been only partially achieved and there remains considerable scope to improve the synergies between dedicated teacher education schools and the wider university. Undergraduate teacher education students should engage with staff and their peers in other facilities much more directly as part of their social and intellectual development. In particular, opportunities should be created for joint study with colleagues in cognate professions such as social work. The values and intellectual challenges which underpin academic study should extend their scholarship and take them beyond an inclination, however understandable, to want narrow training of immediate and direct relevance to life in the classroom' Donaldson (2011:6).

O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r radd BEd yn yr Alban yn cael ei dirwyn i ben ym mhob prifysgol ac yn cael ei disodli gan raddau addysg lle mae'r myfyrwyr yn treulio cyfnod sy'n cyfateb i ddwy flynedd yn astudio ochr yn ochr â myfyrwyr eraill o ddisgyblaethau eraill yn y brifysgol.

Mae Cymru felly yn wynebu nifer o opsiynau o ran datblygu ei llwybr israddedig i mewn i addysgu yn yr ysgol gynradd yn y dyfodol.

Opsiwn 12.1 Y status quo – gradd BA (Anrh) SAC yn aros fel y mae

Mae'n eglur mai dyna fyddai'r opsiwn lleiaf trafferthus. Er hynny, o gofio bod amheuon difrifol yn parhau ynglŷn ag ansawdd y llwybr tair-blynedd o'i gymharu â rhaglenni mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, ac o gofio bod yna gwestiynau ynghylch ansawdd y mewnlifiad o'i gymharu â'r cynnydd yn y gofynion mynediad mwn cynifer o bynciau eraill, mae angen i gamau gael eu cymryd. Un o'r canfyddiadau allweddol yn y dystiolaeth ryngwladol yw bod y rhaglenni mwyaf llwyddiannus yn ymdrechu'n gyson i wella ansawdd y mewnlifiad ac ansawdd y ddarpariaeth. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n ymddangos nad yw'r rhaglen tair-blynedd yn addas at ei diben mwyach fel llwybr cychwynnol pwysig i athrawon ysgolion cynradd yng Nghymru.

Opsiwn 12.2. Ymestyn y BA Addysg presennol i bedair blynedd

Byddai ymestyn y radd BA Addysg i bedair blynedd yn dod â manteision arwyddocaol. Yn gyffredinol, mae cyrsiau pedair-blynedd mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig yn denu myfyrwyr o ansawdd well na chyrsiau tair-blynedd; maen nhw hefyd yn caniatáu i fwy o sylw gael ei roi i astudio'r pwnc ac elfen bwysig o astudiaethau uwch – gan gynnwys arbenigo ar bynciau penodol. Yn yr holl ffyrdd hyn, byddai ychwanegu pedwaredd flwyddyn yng Nghymru yn gyfraniad arwyddocaol at wella ansawdd athrawon ysgolion cynradd.

Opsiwn 12.3 Ymestyn y radd i bedair blynedd a seilio 50% o amser y myfyrwyr yn adrannau'r prif bynciau

Mae'r opsiwn hwn yn dilyn esiampl yr Alban. O'i gymharu ag Opsiwn 12.2, mae'n gosod mwy o bwyslais ar addysg bersonol y myfyrwyr yn hytrach na'u haddysg broffesiynol. Er hynny, gan fod dwy flynedd llawn ar gael, mae addysg broffesiynol y myfyrwyr yn

dal yn gryfach nag yn y llwybr olynol. Mae cynyddu'r amser a neilltuir ar gyfer addysg bersonol wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bydd hyn yn dod â manteision arwyddocaol o ran gwella ansawdd, sef ansawdd y mewnlifiad ac ansawdd y profiadau addysgol a gynigir i ddarpar athrawon ysgolion cynradd.

ARGYMHELLIAD 6: Y dylai'r BA Cynradd (Anrh) SAC yn ei ffurf bresennol gael ei dirwyn i ben a'i disodli gan radd bedair-blynedd a 50% o amser y myfyrwyr yn cael ei dreulio yn adrannau'r prif bynciau – opsiwn 12.3

13. Opsiynau ynglŷn â gwella ansawdd dechreuwyr yn y proffesiwn

Fel y nodwyd yn Adran A o'r Adroddiad hwn, bernir yn eang fod gwella ansawdd y cyfalaf dynol ymhlith dechreuwyr newydd yn y proffesiwn addysgu yr un mor bwysig â gwella ansawdd y ddarpariaeth ei hun. Yn wir, ar lawer ystyr mae'r ddau yn mynd law yn llaw: mae datblygu cyrsiau o ansawdd well yn un ffordd o ddenu ymgeiswyr o ansawdd well i'r proffesiwn. Ond nid peth hawdd yw gwella ansawdd yr ymgeiswyr, yn enwedig mewn sector addysg uwch sy'n cael ei lywio gan y farchnad lle mae gan y myfyrwyr ddewis o ran ble i astudio a lle mae'r prifysgolion eu hunain yn cael eu cosbi'n ariannol os ydyn nhw'n methu recriwtio'u niferoedd targed. O ran y *mathau* o ddarpariaeth, mae gan Teach First hanes da o ddenu ymgeiswyr o safon i'w rhaglen. Er hynny, isel yw eu niferoedd yng Nghymru ac oni bai bod yna gynlluniau i ehangu'n sylweddol ar y cynllun, bydd ei effaith ar ansawdd gyffredinol y rhai sy'n cael eu recriwtio yn dal yn ymylol. Rhywbeth a allai fod yn fwy arwyddocaol yw'r radd BA Cynradd (SAC) ddiwygiedig ac estynedig sydd wedi'i disgrifio yn Adran 12 uchod. Fel yn yr Alban, dylai ail-lansio gradd gyfun bedair-blynedd ddenu ymgeiswyr o ansawdd well.

Ond mae gwella ansawdd yn cynnwys mwy na'r mathau o ddarpariaeth: mae cymhellion ariannol a gofynion mynediad yn bwysig hefyd. Yn adran 7.1 uchod nodwyd bod y cymhellion ariannol a gynigir ar hyn o bryd i ymgeiswyr AGA yn fwy hael mewn rhai achosion yn Lloegr nag yng Nghymru. O ganlyniad, mae arweinwyr rhaglenni'n dweud bod rhai o'u hymgeiswyr gorau yn y diwedd yn dewis ymadael â Chymru i hyfforddi. Bydd llawer wedyn yn dewis cymryd swydd addysgu yn Lloegr hefyd.

Mae darparu cymhellion ariannol i'r ymgeiswyr gorau mewn addysg athrawon yn ddrud ac mae'n golygu gwneud dewisiadau anodd. Hyd yn hyn, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei gorau o fewn yr adnoddau sydd ar gael i gynnig cymhellion sydd gystal â'r rhan fwyaf o gynigion Lloegr.[15] Ac mae yna dystiolaeth bod niferoedd yr ymgeiswyr sydd â lefel cymwysterau dda yn parhau ar hyn o bryd, er gwaethaf y gwahaniaethau yn y cymhellion. Er hynny, o gofio bod angen recriwtio'r ymgeiswyr gorau un yng Nghymru, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gadw llygad barcut ar effaith cymhellion gwahanol ar recriwtio. Os gwelir yn y dyfodol fod y lefelau recriwtio da presennol yn methu, yna fe all fod yn rhaid buddsoddi mwy yn y cymhellion.

Fel y nodwyd hefyd yn 7.1 uchod, ceir anghysondebau ar hyn o bryd o ran y gofynion mynediad yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ofynnol bod gan bob darpar ymgeisydd yng

15. Un eithriad pwysig yw'r rhai sydd â gradd 2.2 neu'n is y tu allan i'r pynciau sydd â blaenoriaeth allweddol o ran recriwtio yn 2014-15, sef mathemateg, cemeg a ffiseg. Yn wahanol i Loegr, er mwyn rhoi hwb i'r rhai sydd â'r lefelau uchaf o arbenigedd pwnc ar lefel gradd sy'n dechrau yn y proffesiwn addysgu yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis yn fwriadol peidio â chynnig cymhellion ariannol.

Nghymru radd 'B' mewn TGAU mewn Saesneg a Mathemateg; yn ychwanegol, mae ar ymgeiswyr cynradd angen gradd 'C' mewn gwyddoniaeth. O ganlyniad, mae rhai arweinwyr cyrsiau'n dweud bod ymgeiswyr sydd fel arall yn alluog ond sydd heb y graddau penodol hyn yn dewis astudio yn Lloegr lle mae'r gofynion mynediad yn is ar hyn o bryd.

Serch hynny, ychydig yn unig a allai ddadlau nad oes ar ddarpar athrawon unrhyw bwnc angen lefelau da mewn rhifedd a llythrennedd ac mae ar bob athro ac athrawes mewn ysgolion cynradd angen rhyw gymhwysedd gofynnol mewn gwyddoniaeth – sef pwnc y bydd yn rhaid iddyn nhw i gyd ei addysgu. Yn wir, os caiff argymhellion Adolygiad Donaldson (2015) eu derbyn, yna bydd pob athro ac athrawes yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysed ddigidol. Er y dylai Llywodraeth Cymru gadw llygad o bosibl ar effaith ei gofynion cyfredol ynglŷn â recriwtio, o dan yr amgylchiadau hyn mae'n anodd gweld sut y gallai gostyngiad yn y safonau mynediad yn y dyfodol fod yn ddymunol na chael ei gyfiawnhau.

ARGYMHELLIAD 7: Y dylai Llywodraeth Cymru gadw llygad barcut ar effaith cymhellion ariannol ar recriwtio, gan ystyried yn benodol lefelau ariannu gwahanol o'u cymharu â'r rhai sydd ar gael yn Lloegr

14. Opsiynau ynglŷn â dyfodol capasiti ymchwil sy'n ymwneud â'r proffesiwn

Fel y nodwyd yn Adran A , dylai ymchwil lywio rhaglenni addysg athrawon mewn sawl ffordd: yn yr wybodaeth sy'n sail i'r cynnwys, wrth ddylunio rhaglenni ac wrth baratoi darpar athrawon i fod yn ddefnyddwyr beirniadol *ar* ymchwil yn ogystal ag yn gyfranogwyr *mewn* ymchwil. Gan hynny, mae datblygu a chynnal capasiti ymchwil yn y system addysg athrawon yn hanfodol, ar gyfer y cynnwys ac ar gyfer proses addysg athrawon ei hun. Mae cymuned ymchwil gadarn yn hanfodol bwysig hefyd i'r system addysg mewn ystyr ehangach. Mae capasiti ymchwil yn rhan holl-bwysig o'r hyn y mae ar bob system addysg ei angen os ydyn nhw am eu gwella eu hunain. Ond, fel y nodwyd hefyd yn Adran A, ar hyn o bryd mae capasiti ymchwil cyfadrannau addysg athrawon ym mhrifysgolion Cymru yn eithriadol o wan. Dylai'r ffaith na chafodd yr un aelod o staff cyfadrannau addysg Cymru ei gofnodi yn yr REF cyfredol fod yn destun pryder mawr i Gymru.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae CCAUC ar y cyd â'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) wedi gwneud buddsoddiad pwysig i ddatblygu'r capasiti ymchwil drwy sefydlu Addysg Wiserd[16] o dan arweiniad Prifysgol Caerdydd. Menter rwydweithiol yw hon ac mae staff Addysg Wiserd yn gweithio mewn cydweithrediad â chydweithwyr mewn addysg ledled sector prifysgolion Cymru gan anelu'n benodol at gynyddu capasiti ymchwil addysgol Cymru. Mae amrediad o setiau data addysgol wedi'u sefydlu a cheir cyfleoedd am gyfnodau preswyl yng Nghaerdydd. Mae hyn yn caniatáu i nifer o brosiectau ar y cyd gael eu datblygu ledled Cymru – sef prosiectau sydd o werth yn ymarferol ac fel cyfrwng i ddatblygu capasiti ymchwil, gan gynnwys capasiti mewn dulliau ansoddol.

Gallwn ddysgu llawer ar sail menter Addysg Wiserd. Er hynny, o gofio'r dasg y mae'n ei hwynebu, mae'n fenter gymharol fach ac ar un rhan benodol o ymchwil addysgol y mae'n canolbwyntio, a honno'n seiliedig yn bennaf ar y gwyddorau cymdeithasol. Yn ychwanegol at y math o gapasiti ymchwil sy'n cael ei feithrin gan Addysg Wiserd, mae angen dybryd yng Nghymru am gapasiti mewn ymchwil bedagogaidd; sef angen a fydd yn fwy dybryd byth os caiff argymhellion Adolygiad Donaldson (2015) eu derbyn. Byddai datblygu ymchwil ar addysgu, dysgu, ac asesu, yn enwedig o safbwynt y pynciau (neu yn wir o safbwynt chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' Donaldson), yn arbennig o werthfawr o ran ategu addysg athrawon. Unwaith eto, ledled Cymru, mae ymchwil bedagogaidd, hyd yn oed mewn meysydd allweddol fel addysgu Cymraeg neu fathemateg, yn wan iawn ar hyn o bryd.

Mae o leiaf tri opsiwn ynglŷn â datblygu capasiti ymchwil o'r fath yng Nghymru yn y dyfodol.

16. Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru

Opsiwn 14.1 Y status quo. Caniatáu i'r sefydliadau wedi'u cryfhau ddatblygu eu diwylliannau ymchwil eu hunain

Os caiff y cynigion cynharach ynglŷn ag ailachredu addysg athrawon eu mabwysiadu, yn enwedig felly y rhai a amlinellwyd yn Opsiwn 9.4 sy'n awgrymu sefydlu set ofynnol o safonau ar gyfer darparwyr addysg athrawon, yna mae eisoes yn bosibl y bydd capasiti ymchwil addysgol Cymru'n gwella. Fe allai wella hefyd pe bai'r ddarpariaeth addysg athrawon yn cael ei chrynhoi, gan gynnwys llai o brifysgolion. Byddai system ddiwygiedig yn sicr yn creu'r posibilrwydd o welliant, ond nid yn ei warantu. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae prifysgolion ledled Cymru wedi caniatáu i gapasiti ymchwil addysgol edwino. I weddnewid y sefyllfa, felly, mae'n bosibl y bydd angen ymyrryd yn fwy uniongyrchol.

Opsiwn 14.2 Ehangu Addysg Wiserd i gynnwys dimensiwn pedagogaidd

Mae model Addysg Wiserd yn fodel buddiol o sut y gall capasiti ymchwil gael ei feithrin. Gan hynny, fe allai gael ei ymestyn drwy ychwanegu ail ddimensiwn i'w waith, i ymwneud ag ymchwil bedagogaidd mewn pynciau allweddol. Effaith hynny fyddai sefydlu canolfan genedlaethol ar gyfer ymchwil addysgol yng Nghymru. O gofio bod gan Brifysgol Caerdydd enw da yn rhyngwladol yn barod fel canolfan bwysig o ran ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol ynglŷn ag addysg, mae yna obaith cryf y byddai dimensiwn pedagogaidd newydd yn eu gwaith yn cyrraedd y radd uchaf. Gyda chyllid o dan reolaeth briodol, gallai gael ei deilwra'n unswydd hefyd at anghenion Cymru. Byddai i fodel o'r fath fanteision arwyddocaol. Er hynny, hyd yn oed pe bai'n cael ei rwydweithio yn yr un modd â rhaglen bresennol Addysg Wiserd, effaith uniongyrchol gyfyngedig a gâi ar addysgwyr athrawon ar draws Cymru. Mae'n anochel y byddai'r rhan fwyaf o'r capasiti hwn wedi'i lleol ym Mhrifysgol Caerdydd ei hun, nad yw ar hyn o bryd yn ddarparwr mawr mewn addysg gychwynnol athrawon.

Opsiwn 14.3 Yn ychwanegol at ehangu Addysg Wiserd, ei chysylltu â rhwydwaith o bum canolfan ragoriaeth bedagogaidd ar draws Cymru

Un opsiwn olaf fyddai adeiladu ar Opsiwn 14.2 ond sefydlu hefyd hyd at bum canolfan ragoriaeth bedagogaidd ar draws Cymru. Gallai prifysgolion cynnig am sefydlu canolfan bedagogaidd mewn ystod o bynciau y bernir eu bod yn hanfodol i Gymru – er enghraifft addysgu'r Gymraeg, Mathemateg, addysgu'r cyfnod sylfaen ac addysgu plant sydd o dan anfantais gymdeithasol. Gallai'r cyllid redeg am bum mlynedd i ddechrau a gallai'r prifysgolion eu hunain ddarparu arian cyfatebol. Dylai'r pum canolfan, bob un a chanddi gysylltiadau cryf â darparu addysg athrawon, gael eu rhwydweithio a'u cysylltu â chanolfan ymchwil bedagogaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, lle dylid cael cyllid i sefydlu Cadair mewn ymchwil bedagogaidd. Byddai mynd ati fel hyn yn ateb yr angen cenedlaethol i gynyddu'r capasiti ymchwil mewn meysydd allweddol mewn addysgu yng Nghymru. Byddai'r canolfannau unigol, a gâi eu rhwydweithio a'u cefnogi o Gaerdydd, hefyd yn ysgogi diwylliannau ymchwil gweithredol ymysg darparwyr addysg athrawon ledled Cymru.

ARGYMHELLIAD 8: Y dylai Addysg Wiserd gael ei hymestyn i gynnwys dimensiwn pedagogaidd wedi'i gysylltu â rhwydwaith o bum canolfan ragoriaeth bedagogaidd ledled Cymru, Opsiwn 14.3

15. Darparwyr prifysgol

Mae un set olaf o opsiynau'n ymwneud â nifer y prifysgolion sy'n ddarparwyr. Yn hyn o beth mae'n rhaid inni ofyn beth yw'r nifer gorau o ddarparwyr, os bwriedir i Gymru sicrhau cynnydd arwyddocaol ac angenrheidiol yn ansawdd y ddarpariaeth. Ar hyn o bryd mae tair canolfan wedi'u hachredu i ddarparu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Mae pump o brifysgolion yn cyfrannu at y canolfannau hyn, sef Canolfan Addysg Athrawon y De-orllewin (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant); Canolfan Addysg Athrawon y De-ddwyrain (Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru); a Chanolfan Addysg Athrawon y Gogledd a'r Canolbarth (Prifysgolion Aberystwyth a Bangor).

Gallai'r ddarpariaeth yn y dyfodol gael ei seilio ar un o dri opsiwn. Ym mhob achos mae'n briodol ystyried y potensial sydd gan bob opsiwn i wella ansawdd y ddarpariaeth, a'r costau ariannol a'r heriau gwleidyddol o dan sylw.

Opsiwn 15.1 – Pum canolfan brifysgol

Fel y nodwyd eisoes, un o'r heriau mawr a oedd yn wynebu'r sector addysg gychwynnol athrawon adeg fy adolygiad blaenorol (Furlong et al 2006) oedd bod cryn dipyn yn ormod o gapasiti o ran cynhyrchu athrawon yn ogystal ag o ran dyblygu rhaglenni. Heddiw, o ganlyniad i ddiwygiadau a oruchwyliwyd gan CCAUC, mae pob un o'r pum prifysgol sy'n gwneud cyfraniad yn cynnig ystod wahanol o raglenni. Ceir ystod briodol o ddarpariaeth ddwyieithog ar draws Cymru hefyd. Ar ben hynny, mae'r mwyafrif o'r cyfadrannau wedi arallgyfeirio'u darpariaeth fel eu bod yn parhau'n hyfyw o safbwynt economaidd er bod eu niferoedd mewn addysg athrawon wedi'u lleihau'n sylweddol.

O gofio'r newidiadau sydd wedi'u cyflawni, o ran egwyddor byddai erbyn hyn yn bosibl caniatáu i bob un o'r prifysgolion presennol barhau i gynnig eu hystod gyfredol o ddarpariaeth fel darparwyr achrededig unigol.

Potensial i wella ansawdd y ddarpariaeth

Mantais caniatáu i bob un o'r pum prifysgol barhau â'u darpariaeth bresennol fyddai sicrhau parhad mewn system sydd newydd weld diwygiadau mawr. Yn y tymor byr, mae'n annhebyg y ceid effaith gadarnhaol nac effaith negyddol ar ansawdd. Ond, efallai y byddai'n gwanhau'r potensial ar gyfer rhagor o ddatblygu. Mewn dwy o'r prifysgolion o leiaf, cymharol fach yw maint y ddarpariaeth ar gyfer addysg athrawon. Hefyd, mae'r ffaith bod y rhaglenni wedi'u dosbarthu'n wahanol yn golygu bod yna lai o botensial o bosibl i ddatblygu capasiti ac arbenigedd ymchwil yn y dyfodol. Mae angen cydnabod hefyd y gallai gwella ansawdd y ddarpariaeth ar draws pum sefydliad fod gryn dipyn yn anos i Lywodraeth Cymru ac i unrhyw asiantaethau y byddai'n eu penodi i oruchwylio'r sector, na gwella ansawdd y ddarpariaeth ar draws llai o sefydliadau.

Costau ariannol

Gan na fyddai'r ddarpariaeth yn newid, ychydig yn unig o gostau a geid o ran ad-drefnu. Er hynny, fe fyddai'n costio mwy i staffio pum canolfan yn hytrach na nifer is. Ceid costau uwch hefyd ar y lefel genedlaethol, o ran gweinyddu ac arolygu.

Heriau gwleidyddol

Rhagdybir y byddai'r rhain yn llai nag unrhyw un o'r opsiynau eraill.

Opsiwn 15.2 – Un ganolfan brifysgol

Ym mhen arall y raddfa, fe fyddai'n bosibl i Gymru ddatblygu un ganolfan genedlaethol ar gyfer addysg athrawon. Mewn rhai ffyrdd mae hyn yn opsiwn deniadol o ran datblygu'r maes at y dyfodol. Yn nhermau absoliwt, nid yw niferoedd y myfyrwyr, sef rhyw 1600 y flwyddyn, yn fawr o'u cymharu â rhai darparwyr eraill yn y Deyrnas Unedig. Byddai crynhoi'r ddarpariaeth yn caniatáu i Sefydliad Addysg Athrawon o safon gael ei ddatblygu yn yr un modd â'r hyn sydd wedi digwydd yn Singapore. Gallai sefydliad o'r fath ddod yn ganolfan genedlaethol hefyd ar gyfer DPP uwch ac ymchwil, sy'n golygu y gallai wneud cyfraniad mawr at wella ansawdd addysg ledled Cymru. O gofio daearyddiaeth Cymru, byddai angen i'r sefydliad gydweithio â nifer o gyrff rhanbarthol ledled y wlad. Gallai grŵp o, dyweder, 20 o 'Ysgolion Hyfforddi' a fyddai eu hunain yn cael rhagor o staff i wneud eu gwaith ar addysg athrawon fod yn ganolfannau lleol, wedi'u cysylltu â rhwydwaith o ysgolion eraill yn eu hardal. Byddai system o'r fath yn caniatáu i ysgolion ledled Cymru gael eu cysylltu â'r arferion rhyngwladol gorau un o ran addysg ac ymchwil broffesiynol.

Potensial i wella ansawdd y ddarpariaeth

Byddai'r potensial ar gyfer sicrhau darpariaeth o safon yn sgil yr opsiwn hwn yn gryf; o ran egwyddor byddai'n haws i Lywodraeth Cymru a'i gwahanol asiantaethau reoli un sefydliad na nifer o brifysgolion. Un anfantais o dan yr opsiwn hwn yw na fyddai fawr ddim cystadleuaeth yn y system.

Costau ariannol

Mae'n eglur y byddai'r model un ganolfan yn cynnig arbedion sylweddol o ran rhesymoli'r ddarpariaeth. Er hynny, mae'n bosibl y byddai rhywfaint o gostau pontio wrth 'ddatgomisiynu' y mwyafrif o'r darparwyr presennol. Ceid costau parhaus newydd hefyd wrth gynnal rhwydwaith cenedlaethol o 'Ysgolion Hyfforddi' neu bartneriaid eraill. Efallai y ceid rhywfaint o gostau parhaus hefyd pe bernid bod angen helpu'r prifysgolion presennol i gynnal darpariaeth addysgol arall, megis cyrsiau gradd meistr a mathau eraill o DPP uwch.

Heriau gwleidyddol

Er ei fod yn ddeniadol mewn llawer o ffyrdd, y model un ganolfan fyddai'r un anoddaf i'w gyflawni o safbwynt gwleidyddol. Mae'n debyg y ceid gwrthwynebiad sylweddol

iawn o du'r sefydliadau na fydden nhw'n cael eu dewis yn brif ddarparwr. Gellid gweld gwrthwynebiad rhanbarthol sylweddol hefyd o du cyrff y tu allan i sector y prifysgolion. Er gwaethaf y cynnig i ddatblygu rhwydwaith o Ysgolion Hyfforddi wedi'u hariannu, gallai llawer o ardaloedd Cymru deimlo bod yr opsiwn hwn yn peri anfantais sylweddol iddyn nhw.

Opsiwn 15.3 – Tair canolfan brifysgol

Un dewis arall fyddai ailachredu addysg athrawon mewn tair prifysgol ranbarthol, ar sail gystadleuol. Fel ar hyn o bryd, efallai y dylai'r rhain gael eu lleoli yn y Gogledd a'r Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain. Ond gyda'i gilydd byddai angen iddyn nhw sicrhau eu bod yn cynnig rhychwant cenedlaethol priodol. Byddai mynd ati fel hyn yn caniatáu i ddosbarthiad cyfredol y ddarpariaeth barhau ac ar yr un pryd yn caniatáu ar gyfer rhagor o grynhoi. Yn ychwanegol, byddai dileu'r angen am gydweithredu ar draws prifysgolion yn caniatáu i dair canolfan gref gael eu datblygu mewn tri sefydliad, heb fod angen cydgynllunio a chydatebolrwydd. Byddai tair canolfan, bob un yn cynnig darpariaeth weddol debyg, yn caniatáu i gyrsiau gael eu marchnata i'r myfyrwyr mewn ffordd symlach. O'i gymharu â'r model pum canolfan, y prif wahaniaeth rhwng y tair canolfan brifysgol fyddai eu lleoliad, yn hytrach na'r amrediad o gyrsiau a gâi eu cynnig.

Potensial i wella ansawdd y ddarpariaeth

Gallai crynhoi'r ddarpariaeth mewn tair canolfan ganiatáu ansawdd well o'i chymharu â'r model pum canolfan. Gallai nifer is o sefydliadau gael eu monitro'n fwy effeithiol gan y cyrff cenedlaethol; gallai crynhoi'r ddarpariaeth yn fwy hefyd gynyddu lefel yr arbenigedd ym mhob sefydliad.

Costau ariannol

Byddai model tair canolfan yn cynnwys rhai costau pwysig o ran y pontio. Efallai y bydd ar y sefydliadau hynny na fyddan nhw'n cael eu dewis yn ddarparwyr addysg athrawon yn y dyfodol angen rhywfaint o gymorth er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth berthynol arall (cyrsiau heb SAC, rhaglenni Meistr a Doethuriaethau) yn parhau'n hyfyw. Efallai y ceid costau byrdymor hefyd wrth adleoli staff profiadol neu ddiddymu swyddi. Ond ar yr un pryd mae'n bosibl y ceid gostyngiad mewn rhai costau drwy resymoli'r ddarpariaeth.

Heriau gwleidyddol

Mae'n debyg y ceid gwrthwynebiad arwyddocaol o du'r sefydliadau hynny, a'u hysgolion a'u hawdurdodau lleol perthynol, na fydden nhw'n cael eu dewis yn ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon.

Dewis rhwng y tri opsiwn

Fel yr eglurwyd, mae gan bob un o'r opsiynau uchod fanteision ac anfanteision. Er hynny, eithriadol o anodd yw penderfynu pa opsiwn a fyddai'n cynnig y gobaith gorau o wella ansawdd y ddarpariaeth. Byddai llawer yn dibynnu ar ansawdd y 'weledigaeth' y byddai

prifysgol benodol yn ei chynnig – boed yn unig ddarparydd, yn un o blith tri neu'n un o blith pump. Mae'n eithriadol o anodd gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail haniaethol.

O dan yr amgylchiadau hyn, efallai mai'r ffordd orau ymlaen fyddai cyplysu'r penderfyniad terfynol am nifer y darparwyr â'r broses ailachredu a amlinellwyd uchod. Wedyn gellid ei gwneud yn ofynnol i'r prifysgolion a allai fod yn ddarparwyr (ac mae'n bosibl na fyddai'r rhain yn gyfyngedig i'r darparwyr cyfredol) wneud cynnig am y ddarpariaeth yn y dyfodol, gan amlinellu sut y bydden nhw'n eu gweld eu hunain mewn perthynas â'r sector yn ei grynswth – fel un darparwr yn unig, fel un o blith tri neu fel un o blith pump. Byddai hynny'n caniatáu i'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon ffurfio barn wybodus am nifer y darparwyr, ar sail ansawdd y cynigion penodol.

ARGYMHELLIAD 9: Y dylai Llywodraeth Cymru gytuno i ddatrys darpariaeth addysg gychwynnol athrawon yn y dyfodol drwy broses o dendro cystadleuol ac mai'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon a ddylai wneud y penderfyniad terfynol ar sawl prifysgol a ddylai ddod yn ddarparwyr achrededig

16. Casgliad

Mae addysg athrawon yng Nghymru heddiw wedi cyrraedd trobwynt tyngedfennol. Pan oeddwn i a'm cydweithwyr yn paratoi'n hadroddiad cychwynnol yn 2006, doedd ansawdd y system ddim yn bwnc llosg. Yn sicr roedd yna welliannau a allai gael eu gwneud, yn enwedig o ran cyfraniad yr ysgolion, ond doedd y system ddim mewn argyfwng. Y wir her ar y pryd oedd maint a dosbarthiad y capasiti. Yn y blynyddoedd sydd wedi mynd heibio mae'r broblem honno wedi'i datrys i raddau helaeth. Ond ar yr un pryd mae yna dystiolaeth bod ansawdd y system wedi dirywio. Mae'r anawsterau a gafwyd wrth sefydlu canolfannau o safon, y gwendidau yn y ddarpariaeth a nodwyd mewn sawl adroddiad gan Estyn, y diffyg cysylltiad effeithiol rhwng addysg gychwynnol athrawon a DPP a chwalfa'r capasiti ymchwil i gyd yn peri pryder difrifol. Mwy arwyddocaol byth yw'r ffaith nad yw cysyniad presennol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru yn briodol ar gyfer datblygu'r athrawon y mae ar Gymru eu hangen heddiw ac yfory. Os yw'r proffesiwn addysgu ei hun am wneud ei briod gyfraniad at godi safonau yn ein hysgolion yn y modd sydd wedi'i nodi yn Adolygiad Donaldson (2015), yna yr hyn y mae ei angen yw math o addysg gychwynnol athrawon sy'n eang ac nid yn gyfyngedig, sy'n rhoi i'r athrawon eu hunain y sgiliau, yr wybodaeth a'r awydd i arwain y newidiadau angenrheidiol. Ar hyn o bryd, nid yw'r math hwnnw o addysg gychwynnol athrawon ar gael yng Nghymru.

Mae'n ffodus bod gan Gymru nifer fawr o unigolion a sefydliadau o hyd sy'n dal yn ymroddgar iawn i ddarparu addysg gychwynnol athrawon o safon. Mae yna sefydliadau sydd â chenedlaethau o brofiad; mae yna unigolion sydd â sgiliau o safon a brwdfrydedd mawr. Yr hyn sydd wedi bod ar goll yn y blynyddoedd diwethaf yw system sefydlog o safon, lle gall y sefydliadau a'r unigolion hyn ffynnu. Pan fydd yn eglur pa rai o'r opsiynau uchod yr hoffai Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu, rwy'n siŵr y bydd y sector yn gafael yn y cyfleoedd a gynigir, gan gydweithio i roi i Gymru yr ansawdd mewn addysg athrawon y mae arni ei hangen at y dyfodol.

Rhestr argymhellion

Argymhelliad 1. Y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Safonau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn unol â'r egwyddorion a bennwyd yn Opsiwn 9.4, a hynny fel mater o flaenoriaeth

Argymhelliad 2. Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu proses achredu ddiwygiedig i ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon fel y'i disgrifiwyd yn Opsiwn 9.4

Argymhelliad 3: Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 'Bwrdd Achredu Addysg Athrawon' o fewn Cyngor y Gweithlu Addysg

Argymhelliad 4: Y dylai rôl Estyn mewn addysg gychwynnol athrawon gael ei hadolygu pan fydd proses achredu ddiwygiedig wedi'i sefydlu'n llawn

Argymhelliad 5: Y dylai 'Canllawiau Arolygu' Estyn ar gyfer ysgolion gael eu diwygio i gynnwys cydnabyddiaeth bendant i gyfraniad ysgol at addysg gychwynnol athrawon

Argymhelliad 6: Y dylai'r BA Cynradd (Anrh) SAC yn ei ffurf bresennol gael ei dirwyn i ben a'i disodli gan radd bedair-blynedd a 50% o amser y myfyrwyr yn cael ei dreulio yn adrannau'r prif bynciau

Argymhelliad 7: Y dylai Llywodraeth Cymru gadw llygad barcut ar effaith cymhellion ariannol ar recriwtio, gan ystyried yn benodol lefelau ariannu gwahanol o'u cymharu â'r rhai sydd ar gael yn Lloegr

Argymhelliad 8: Y dylai Addysg Wiserd gael ei hymestyn i gynnwys dimensiwn pedagogaidd wedi'i gysylltu â rhwydwaith o bum canolfan ragoriaeth bedagogaidd ledled Cymru

Argymhelliad 9: Y dylai Llywodraeth Cymru gytuno i ddatrys darpariaeth addysg gychwynnol athrawon yn y dyfodol drwy broses o dendro cystadleuol ac mai'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon a ddylai wneud y penderfyniad terfynol ar sawl prifysgol a ddylai ddod yn ddarparwyr achrededig

Cyfeiriadau

BERA-RSA (2014) *Research and the Teaching Profession; building the capacity for a self-improving education system. Final report of the BERA-RSA Inquiry into the role of research in teacher education*. Llundain: BERA

Carter, A (2015) *Carter Review of Initial Teacher Training*. London: Department of Education. www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/399957/Carter_Review.pdf

Y Cyngor Addysgu (Iwerddon) (2011) *Initial Teacher Training: Criteria and Guidelines for Programme Providers* www.teachingcouncil.ie/publications.157.html

DEL (2014) *Aspiring to Excellence. Final report of the international review panel on the structure of initial teacher education in Northern Ireland*. Belfast: Yr Adran Cyflogaeth a Dysgu

Donaldson, G. (2011) *Teaching Scotland's Future. Report of a review of teacher education in Scotland*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban

Donaldson, G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Estyn (2013) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2013-14*. Caerdydd: Estyn

Furlong, J. a White, P. (2001) *Educational Research Capacity in Wales; a review*. Caerdydd: Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd

Furlong, J., Hagger, H. Butcher, C. a Howson, J. (2006) *Adolygiad o'r Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (adroddiad Furlong)*. Rhydychen: Adran Addysg Prifysgol Rhydychen

GTCS (2012) *The Standards for Registration: mandatory requirements for Registration with the General Teaching Council for Scotland* Caeredin: GTCS http://www.gtcs.org.uk/standards/standards.aspx

Llywodraeth Cymru (2011) *Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru*. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 020/2011. http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140630-revised-professional-standards-cy.pdf

OECD (2014) *Improving Schools in Wales; An OECD perspective*. Paris: OECD

Sahlberg, P, Furlong, J. a Munn, P (2012) *Report of the International Review Panel on the Structure of Initial Teacher Education Provision in Ireland: review conducted on behalf of the Department of Education and Skills*, Dulyn: Awdurdod Addysg Uwch Iwerddon

Tabberer R. (2013) *Adolygiad o Hyfforddiant Cychywnnol Athrawon yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru